Cyngor Deintyddol Cyffredinol | gwarchod cleifion rheoleiddio'r tîm deintyddol

# Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2014

www.gdc-uk.org

**Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol**
**Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2014**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i'r Senedd yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygio) 2005 Deddf Deintyddion 1984, Gorchymyn 2008 Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol ac ati) a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd y cyfrifon i Senedd yr Alban (gan Weinidogion yr Alban) yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygio) 2005 Deddf Deintyddion 1984, Gorchymyn 2008 Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol ac ati) a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Gorchmynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 13 Gorffennaf 2015.

HC 159

SG/2015/70

**© Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2015)**

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim (heblaw am logos yr Arfau Brenhinol, lle maent yn bresennol, a logos pob adran ac asiantaeth) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod mai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol sydd â'r hawlfraint i'r deunydd a dylid nodi teitl y ddogfen. Pan nodir deunydd trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd y deilydd hawlfraint priodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn, dylech anfon e-bost i information@gdc-uk.org neu ffonio 020 7167 6000.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

ISBN Argraffu 9781474118675

ISBN y We 9781474118682

ID 09051509 06/15

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibrau wedi'u hailgylchu.

# Cynnwys



| Adran | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Diben statudol | 7 |
| 2 | Neges gan y Cadeirydd | 8 |
| 3 | Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2014 | 10 |
| 4 | Adroddiad ystadegol | 18 |
| 5 | Strwythur y Cyngor | 29 |
| 6 | Adroddiad tâl | 32 |
| 7 | Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol | 34 |
| 8 | Adolygiad Ariannol | 35 |
| 9 | Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr | 38 |
| 10 | Datganiad Llywodraethu | 39 |
| 11 | Cyfrifon 2014 | 45 |
| 12 | Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol | 46 |
| 13 | Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd | 47 |
| 14 | Cyfrif Incwm a Gwariant | 48 |
| 15 | Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | 49 |
| 16 | Datganiad Llif Arian | 50 |
| 17 | Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn | 51 |
| 18 | Nodiadau i'r cyfrifon | 52 |
| 19 | Cynghorwyr | 70 |

# 1 | Diben statudol

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i bob deintydd, nyrs ddeintyddol, technegydd deintyddol clinigol, technegydd deintyddol, hylenydd deintyddol, therapydd deintyddol a therapydd orthodonteg gofrestru gyda ni er mwyn cael gweithio yn y DU.

Ein diben yw diogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio'r tîm deintyddol. Rydym yn gwneud hyn trwy:

- gofrestru gweithwyr proffesiynol cymwys;
- gosod safonau uchel o ran ymarfer deintyddol ac ymddygiad;
- diogelu'r cyhoedd rhag ymarfer anghyfreithlon;
- sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant deintyddol cyn cofrestru;
- sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf;
- ymchwilio i gwynion a dderbyniwyd am Addasrwydd i Ymarfer a mynd i'r afael â nhw;
- helpu cleifion a'r proffesiwn i ddatrys cwynion am ddeintyddiaeth breifat, drwy'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

Mae rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol yn effeithiol yn gwella diogelwch cleifion, mae'n gwella ansawdd gofal deintyddol ac yn cynorthwyo i fagu hyder y cyhoedd mewn rheoleiddio deintyddol.

Ein nod yw rheoleiddio mewn ffordd sy'n gymesur, atebol, eglur, cyson, wedi'i thargedu ac sy'n ymateb i ofynion, risgiau a blaenoriaethau sy'n newid.

# 2 | Neges gan y Cadeirydd

Diben y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw diogelu cleifion. Dyma'n prif ddyletswydd statudol. Rydym yn gwneud hyn drwy gofrestru deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol cyffredinol, drwy bennu a gorfodi safonau moesegol ac ymddygiadol ar gyfer y tîm deintyddol, drwy asesu ansawdd addysg ddeintyddol, drwy sicrhau bod pob gweithiwr deintyddol proffesiynol yn diweddaru ei wybodaeth a'i sgiliau, drwy erlyn y rhai sy'n ymarfer yn anghyfreithlon a drwy ymchwilio i gwynion am addasrwydd unigolion ar y gofrestr i ymarfer a chymryd camau ataliol neu adferol priodol.

Mae'r rhain yn dasgau cymhleth a phwysig. Os nad ydynt yn cael eu gwneud yn dda, gall cleifion ddioddef niwed corfforol neu seicolegol a gall enw da a bywoliaethau gweithwyr deintyddol proffesiynol fod mewn perygl.

Daeth y Cyngor newydd, a ddaeth i rym ym mis Hydref 2013, i'r casgliad yn gyflym bod angen gwneud rhai newidiadau pwysig i strwythur, swyddogaeth ac adnoddau'r Cyngor fel y gallai gyflawni ei gyfrifoldebau statudol pwysig i safon effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd uchel. O ystyried hyn, yn 2014 buom yn canolbwyntio ar ddadansoddi'r newidiadau gofynnol a darparu'r cymorth a oedd ei angen i'r Bwrdd Gweithredol fel y gallai wneud y gwaith i gyflawni hyn. Buom hefyd yn gosod y sylfeini ar gyfer strategaeth newydd a datblygiadau amrywiol rydym yn gobeithio eu cyflawni yn 2015 a thu hwnt.

Roedd rhoi sylfaen ariannol gadarn i'r Cyngor yn flaenoriaeth yn 2014. Byddai hyn wedi bod yn angenrheidiol beth bynnag ar ôl pedair blynedd o ddim cynnydd blynyddol yn y Ffioedd Cadw Blynyddol, ond roedd y ffaith bod y cwynion ynghylch addasrwydd i ymarfer wedi dyblu rhwng 2010 a 2013 yn golygu bod cynnydd yn hanfodol. Roedd hyn yn amlwg yn amhoblogaidd ymysg deintyddion, a beirniadwyd a heriwyd y penderfyniad. Fodd bynnag, roeddwn i a'm cydweithwyr yn y Cyngor yn credu mai dyma oedd orau i'r sefydliad a chleifion a maes deintyddiaeth yn gyffredinol.

Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu lefelau'r Ffi Gadw Flynyddol bob blwyddyn a drwy ddefnyddio dulliau rhagweld mwy soffistigedig, gellir osgoi cyfnodau maith o weld costau ac incwm yn mynd i gyfeiriadau gwahanol. Rydym hefyd yn bwriadu parhau i seilio lefelau ffioedd ar gostau rheoleiddio deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol – dyna pam y bu modd i ni gynnig gostyngiad yn lefelau'r ffioedd a oedd yn daladwy gan weithwyr gofal deintyddol proffesiynol, sef 66% o'r proffesiwn deintyddol, yn 2014.

**William Moyes, Cadeirydd**



Yr hyn na werthfawrogir yn llawn o bosib yw'r ymdrechion y mae'r Cyngor wedi'u gwneud i ostwng ei gostau, a maint y buddsoddi sydd wedi'i wneud i sicrhau gwelliannau gweithredol er budd cleifion a'r tîm deintyddol. Dyma ambell enghraifft:

- Mae'r ôl-groniad o achosion addasrwydd i ymarfer a oedd wedi cronni wedi'i glirio bellach, ac mae'r achosion hynny sy'n ymddangos fel bod sylwedd iddynt yn cael eu prosesu drwy'r system;
- Mae cyflawni mwy o waith achos cyfreithiol yn fewnol eisoes wedi arwain at arbedion o £1 miliwn;
- Rydym yn cynnal mwy o wrandawiadau, gyda llawer llai o ddyddiau gwrandawiadau'n cael eu gwastraffu ac yn sgil hynny mae achosion yn cael eu datrys yn gynt;
- Mae'r cynllun pensiwn cyflog terfynol wedi'i gau ar gyfer gweithwyr newydd a'i ddisodli gyda chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae'r Cyngor a'r tîm gweithredol wedi ymdrechu'n galed i weddnewid y system rheoli gwybodaeth, fel bod gennym y wybodaeth yn awr i nodi lle rydym yn tanberfformio a bod modd i ni ddatrys y problemau hyn yn gyflym.

Rydym hefyd wedi newid ein dull o sicrhau bod gan staff y Cyngor y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyrraedd y safonau rheoleiddio proffesiynol uchel y mae cleifion a gwleidyddion yn eu disgwyl, a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon. Mae rhaglenni arweinyddiaeth a rheoli, sefydlu, hyfforddi a rheoli perfformiad wedi'u cyflwyno neu eu gweddnewid yn sylweddol yn ystod 2014, ac mae'n amlwg bod hyn er budd i ansawdd ac effeithlonrwydd gwaith y Cyngor. Mae system cyflogau ac arfarnu newydd yn golygu bod cynnydd mewn cyflog yn cael ei bennu gan berfformiad yn awr, nid hyd gwasanaeth. Mae ailddatblygu ein prif swyddfa yn Wimpole Street yn golygu y byddwn yn arbed costau drwy ddefnyddio ein gofod yn fwy effeithlon a drwy gynnal gwrandawiadau ar y safle.

Blas yn unig ar y gwaith a wnaed neu a ddechreuwyd yn 2014 yw hyn. Gobeithio ei fod yn rhoi syniad i ddarllenwyr o ba mor benderfynol ydym i wneud y Cyngor yn un o'r rheoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol mwyaf effeithiol ac effeithlon.

Yn anochel, mae'r rhaglen newid a gwella hon wedi golygu bod y Cyngor wedi bod yn edrych yn fewnol yn fwy nag sy'n ddymunol. Rydym yn bwriadu newid hynny yn 2015.

Rydym wedi lansio rhaglen o drafodaethau gyda'r sefydliadau proffesiynol blaenllaw i'w briffio ar ein gweithgareddau a'n cynlluniau, ac i roi'r cyfle iddynt ddylanwadu ar ein ffordd o feddwl yn y cyfnod ffurfiannol. Mae hyn wedi'i groesawu'n gynnes, ac rydym yn gobeithio y bydd y drafodaeth yn datblygu'n un barhaus a fydd o fudd i ni a'r proffesiwn. Rydym yn bwriadu defnyddio'r dull hwn i drafod ein strategaeth sy'n cael ei datblygu, er mwyn sicrhau ei bod yn canolbwyntio mwy ar gleifion nag yn y gorffennol.

Yn 2014, sefydlwyd panel cleifion a'r cyhoedd gyda 5,000 o aelodau fel y cam cyntaf i roi llais amlwg i gleifion yn ein gwaith. Mae'r panel yn cynrychioli'r boblogaeth gleifion a dyma'r cyntaf o'i fath ym maes rheoleiddio gofal iechyd proffesiynol. Mae'n cynrychioli ymateb arloesol i adroddiadau Francis a Keogh, a oedd yn pwysleisio'r angen i reoleiddwyr iechyd roi mecanweithiau mwy effeithiol ar waith ar gyfer gwrando ar gleifion, derbyn adborth a'u cynnwys yn y broses o benderfynu sut y dylid newid a gwella gwasanaethau.

Diben y panel yw sefydlu llais unigryw i gleifion a'r cyhoedd er mwyn clywed eu safbwyntiau ar faes deintyddiaeth a rheoleiddio deintyddol. Un o'r manteision allweddol yw bod y panelwyr yn gallu cynyddu eu gwybodaeth am ddeintyddiaeth gydag amser, gan gyfrannu mwy ar sail syniadau grŵp mwy gwybodus. Prif ffocws y panel fydd ansawdd canlyniadau a gofal deintyddol. Dylai eu cyfraniad fod yn amhrisiadwy.

Yn dilyn proses recriwtio hirfaith yn ystod 2014, mae gennym Bwyllgor Penodiadau newydd bellach, sy'n cael ei gadeirio gan Rosie Varley, a nifer o swyddogion cyswllt eraill. Mae ganddynt ystod eang o sgiliau a phrofiad a safbwyntiau ar faterion proffesiynol a rheoleiddio. Rydym yn bwriadu ymgysylltu'n llawer agosach â swyddogion cyswllt yn y dyfodol a rhoi cyfleoedd iddynt lywio a dylanwadu ar y Cyngor a'r tîm gweithredol.

Yn 2014, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Rhaglen Gwasanaethau Deintyddol a Rheoleiddio mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd, NHS England a'r Comisiwn Ansawdd Gofal. Nod y Bwrdd yw edrych ar y system gyfan o reoleiddio deintyddol yn Lloegr.

Bydd y Bwrdd yn gwneud argymhellion yn 2015 gyda'r nod o sicrhau system reoleiddio fwy effeithlon a llai beichus. Rydym yn gobeithio rhoi negeseuon y gwaith hwn ar waith mewn mannau eraill yn y DU ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig.

Roedd methu â sicrhau'r Gorchymyn Adran 60 a gafodd ei addo fel y gallai'r Cyngor gyflymu'r ffordd y mae'n ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer a gostwng costau'n sylweddol yn siom aruthrol yn 2014. Byddai'r diwygio hanfodol hwn yn sicrhau bod ein fframwaith deddfwriaethol yn fwy cyson â rhai rheoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn flaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth newydd.

Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei gyfleu gobeithio, mae newidiadau sylweddol ar droed yn y Cyngor. Ni fydd y rhaglen yn cael ei chwblhau tan 2016 a dyna pryd y byddwn yn gweld ei manteision yn llawn. Felly, efallai na fydd y system rheoleiddio trosolwg a weithredir gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, sy'n canolbwyntio ar berfformiad ddoe yn hytrach na heddiw, yn adlewyrchu realiti'r hyn y mae'r sefydliad yn ei gyflawni'n gyflym. Felly, byddwn yn gwneud pob ymdrech bosib i roi'r sefyllfa ddiweddaraf a chyfrif cytbwys o'n perfformiad i'n rhanddeiliaid amrywiol. Pan nad yw ein perfformiad cystal ag y dylai fod, mae'n iawn i ni gael ein dwyn i gyfrif ac i ddysgu gwersi. Ond gobeithio hefyd y cawn y clod am y gwelliannau a wneir.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'm cydweithwyr yn y Cyngor am eu cefnogaeth gydol 2014 ac i staff a swyddogion cyswllt y Cyngor am fynd i'r afael â'r heriau sy'n ofynnol i weddnewid y sefydliad.

William Moyes

Cadeirydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

# 3 | Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2015

Mae ein Cynllun Busnes 2014 yn nodi sut yr aethom ati i barhau i gyflawni'r amcanion strategol a amlinellwyd yn ein Strategaeth Gorfforaethol 2013-15:-

**Amcan strategol 1:**

*Dadansoddi ac ymateb yn effeithiol i anghenion cleifion a disgwyliadau'r cyhoedd i gynnal hyder y cyhoedd mewn rheoleiddio deintyddol.*

| Amcan yn y Cynllun Busnes | Cyflawni yn erbyn yr amcan |
|---|---|
| • Gwella ein strategaeth ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd yng ngoleuni adborth<br>• Nodi a gweithredu sianeli cyfathrebu newydd | Nod panel newydd ar-lein o 5,000 o gleifion yw datblygu safbwynt cleifion a'r cyhoedd ar ddeintyddiaeth a rheoleiddio deintyddol. Mae'n ein helpu i ddeall a dirnad profiad cleifion o ansawdd eu gofal deintyddol.<br>Lansiwyd astudiaeth annibynnol gennym i gael gwell dealltwriaeth o'r ffynhonnell gwynion, pam mae defnyddwyr gwasanaethau'n cwyno, ac a oes ardaloedd daearyddol neu feysydd yn y proffesiwn lle ceir cwynion mynych. |
| • Cynnal ein gwaith mewn ffordd fwy eglur | Cyflwynwyd polisi ar orfodi troseddau'r Ddeddf Deintyddion, sy'n ein helpu i flaenoriaethu, penderfynu pa achosion y dylid ymchwilio iddynt, a darparu eglurder i aelodau'r cyhoedd ar y mathau o achosion y byddwn yn eu herlyn.<br>Drwy gyfres o ymgynghoriadau, rydym wedi darparu cyfle i gyfrannu at waith sylweddol, er enghraifft:<br>• Safonau Drafft ar gyfer Addysg Arbenigeddau;<br>• Canllawiau ar Sancsiynau Dangosol;<br>• Ffioedd Arholiadau Cofrestru Tramor;<br>• Rheolau Indemniad;<br>• Datblygu Proffesiynol Parhaus;<br>• Cyflwyno Archwilwyr Achosion;<br>• Y Ffi Gadw Flynyddol.<br>Lle'r ydym wedi gweithredu, er enghraifft wrth nodi ymarfer anghyfreithlon, rydym wedi cyfathrebu'r canlyniadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a hysbysu'r cyhoedd am beryglon ymarfer anghyfreithlon.<br>Rydym wedi cyfrannu at waith adolygiad Rhyddid i Siarad Syr Robert Francis ar chwythu'r chwiban yn y gwasanaeth iechyd. Dengys ein hymchwil ein hunain bod y rhai yn y sector deintyddol sy'n mynegi pryderon am ymarfer gwael yn wynebu rhwystrau'n aml.<br>Rydym wedi cynnal ymchwil i nodi natur y rhwystrau hyn a bydd y canfyddiadau'n hysbysu'r canllawiau diwygiedig ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol ar leisio pryderon yn 2015. |
| • Adolygu rôl y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | Rydym yn bwriadu datblygu rôl y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol ac rydym am ddysgu am arferion gorau mewn lleoliadau eraill.<br>Cynhaliwyd ein Seminar Cyngor Arbenigol cyntaf, gan wahodd sefydliadau sy'n cynnig gwasanaeth tebyg i drafod y broses o ymdrin â chwynion, asesu effeithlonrwydd a boddhad cwsmeriaid, ynghyd â hyrwyddo. Roedd y gynulleidfa'n credu bod y cyfarfod yn fuddiol a bwriedir cynnal cyfarfodydd pellach yn 2015. |

**Amcan strategol 2:**

*Rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol mewn ffordd gymesur ac wedi'i thargedu er mwyn gwarchod y cyhoedd yn well a galluogi'r cyhoedd i fod â hyder mewn rheoleiddio deintyddol*

| Amcan yn y Cynllun Busnes | Cyflawni yn erbyn yr amcan |
|---|---|
| • Gweithredu diwygiadau addasrwydd i ymarfer sy'n gwarchod cleifion yn well | Yn 2014, rhoddwyd ffocws cadarn ar wella'n perfformiad a bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2015.<br>Mae archwiliadau o achosion byw gan ein Tîm Cydymffurfiaeth yn ein helpu i ganolbwyntio ar gyrraedd safonau uchel mewn meysydd allweddol fel: gwasanaeth cwsmeriaid, gwneud penderfyniadau, a phrydlondeb gwaith achos.<br>Ysgafnhawyd yr ôl-groniad o achosion yn sylweddol yn ein cyfnodau cychwynnol, a byddwn yn gorffen y gwaith hwn yn hanner cyntaf 2015.<br>Cynyddwyd nifer cyfarfodydd y Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Ymarfer i ymdrin â'r nifer uchel o ymchwiliadau ac erlyniadau dilynol.<br>Rydym wedi rhoi trefniadau cyflwyno newydd, hyfforddiant, sicrhau ansawdd a mesurau rheoli perfformiad mwy llym ar waith ar gyfer gweithwyr achos. |
| • Gweithredu cofrestru ar-lein ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol | Rydym yn parhau i wella'n gwasanaeth eGDC, a fydd yn helpu gweithwyr proffesiynol i reoli eu cofrestriad ar-lein. Defnyddiodd 60% o weithwyr deintyddol proffesiynol y gwasanaeth yn 2014. Ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd a chynnal profion defnyddwyr eang, daeth diweddariad i'r Rheoliadau Cofrestr Deintyddion a Rheolau Cofrestr gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol i rym. Bydd hyn yn golygu y gellir cynnwys gweithwyr deintyddol proffesiynol dros dro ac ymarferwyr deintyddol sy'n ymweld ar y gofrestr. Cafodd y risg o ymuno â'r gofrestr drwy dwyll ei lleihau ymhellach drwy ddefnyddio meddalwedd newydd i wirio dilysrwydd dogfennau hunaniaeth.<br>Dangosodd arolwg cwsmeriaid ar-lein o ddeintyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd fod 61% o ymatebwyr yn fodlon a 34% yn fodlon iawn gyda'r ffurflenni ymgeisio a'r canllawiau cyffredinol. |
| • Gweithredu a chyfathrebu'n effeithiol y safonau proffesiynol newydd | Ar ôl cyhoeddi'r Safonau newydd ar gyfer y Tîm Deintyddol yn 2013, cyflwynwyd safle symudol rhyngweithiol i roi mynediad proffesiynol deintyddol i safonau'r Cyngor ble bynnag y maent.<br>Yn ogystal â hyn, diwygiwyd ein 'Safonau Addysg' yn 2014 ac rydym yn gobeithio sicrhau bod ein prosesau sicrhau ansawdd yn cynnwys mwy o bwyslais ar godi pryderon.<br>Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd â rheoleiddwyr eraill ar y ddyletswydd gonestrwydd a diwygiwyd ein canllawiau ar sancsiynau Addasrwydd i Ymarfer i ymgorffori hyn. |

# 3 | Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2015

## parhad

| Amcan yn y Cynllun Busnes | Cyflawni yn erbyn yr amcan |
|---|---|
| • Adolygu a gweithredu polisïau a chanllawiau cwmpas ymarfer a mynediad uniongyrchol | Mae polisïau cwmpas ymarfer a mynediad uniongyrchol wedi'u sefydlu'n gadarn bellach ar ôl eu rhoi ar waith yn 2013. Rydym yn parhau i ymchwilio i ba raddau y mae mynediad uniongyrchol yn cael ei ddefnyddio, sut mae'n gweithio'n ymarferol a'r effaith ar gleifion.<br><br>Yn 2014, cafodd cwestiwn ei gynnwys yn ein Harolwg Cleifion a'r Cyhoedd 2014. Eglurwyd i ymatebwyr y gallent nawr weld hylenydd deintyddol cyn gweld deintydd am y tro cyntaf, a gofynnwyd a fyddent yn debygol o wneud hyn. Yna, gofynnwyd am y rhesymau dros eu hatebion. |
| • Cwblhau datblygiad a threial system ailddilysu wedi'i hanelu at sicrhau bod deintyddion yn parhau'n addas i ymarfer | Y llynedd, ymgynghorwyd ar newidiadau i wella gofynion Datblygu Proffesiynol Parhaus sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol. Bydd ein dull newydd gwell yn golygu bod yn rhaid i'r holl weithgarwch Datblygu Proffesiynol Parhaus a wneir:<br>• gael ei ddilysu;<br>• gynnwys nodau ac amcanion addysg cryno;<br>• arwain at ganlyniadau clir a ragwelir;<br>• fod yn gysylltiedig â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.<br><br>Mae'r cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus gwell yn gam sylweddol at gyflwyno proses o ailddilysu deintyddion maes o law. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwneud newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sylfaenol cyn hynny.<br><br>Cyhoeddwyd taflen gyngor ar ansawdd Datblygu Proffesiynol Parhaus ym mis Medi 2014 fel rhan o'n gwaith o godi ymwybyddiaeth o Ddatblygu Proffesiynol Parhaus ymysg rhanddeiliaid. |
| • Estyn ein rhaglen ymgynghori ac ymchwilio i roi tystiolaeth ar gyfer datblygu polisïau a rheoleiddio ar sail risg | Diweddarwyd ein hadroddiad Sganio'r Gorwel fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer Strategaeth Gorfforaethol newydd yn 2015.<br><br>Cwblhawyd gwerthusiad annibynnol cychwynnol o risg mewn deintyddiaeth a fydd yn cyfrannu at ddatblygu polisïau ar gyfer rhoi sicrwydd parhaus o Addasrwydd i Ymarfer a pholisi rheoleiddio ehangach.<br><br>Mae ymchwil ansoddol a gomisiynwyd i helpu i ddeall yr amgylchiadau sy'n arwain at weithwyr deintyddol proffesiynol yn penderfynu codi pryder ai peidio, ar gael ar ein gwefan. |

**Amcan strategol 3:**

*Sicrhau bod y rhai sy'n dod i'r proffesiwn o'r newydd yn ddiogel i ymarfer trwy gyfrwng dull cynyddol integredig o reoleiddio addysg a hyfforddiant deintyddol.*

| Amcan yn y Cynllun Busnes | Cyflawni yn erbyn yr amcan |
|---|---|
| • Sicrhau bod y rhai sy'n dod i'r proffesiwn o'r newydd yn ddiogel a chymwys i weithredu o safbwynt ein safonau addysgol a phroffesiynol | Rydym yn defnyddio, ac yn adolygu'n barhaus, gyfres o wiriadau cyn cofrestru i sicrhau mai dim ond y rhai sy'n addas i ymarfer a gofrestrir.<br>Mae canllawiau ar ystyried collfarnau a rhybuddion wedi helpu i reoli ceisiadau cofrestru ac atgyfeiriadau Addasrwydd i Ymarfer.<br>Rydym wedi ymgynghori ar reolau newydd drafft ar gyfer gwirio yswiriant indemniad ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol. Ar ôl eu cymeradwyo, byddwn yn diwygio'n polisïau a'n gweithdrefnau i'w rhoi ar waith yn 2015.<br>Disodlodd rheolau a rheoliadau newydd a gyflwynwyd yn 2014 y gofyniad blaenorol i weithwyr deintyddol proffesiynol ddarparu datganiadau iechyd trydydd parti gyda gofyniad hunanddatgan yn cymryd ei le.<br>Rydym yn paratoi i roi canlyniadau dysgu newydd ar waith yn 'Preparing for Practice' yn y broses o asesu cofrestru yn ystod 2015.<br>Bydd y canlyniadau dysgu yn cydymffurfio â Rhan 1 o'r Arholiad Cofrestru Tramor yn 2015, a Rhan 2 o fis Ionawr 2017, ar ôl i ni ail-dendro ar gyfer yr arholiad hwnnw. |
| • Arolygu sefydliadau addysg a hyfforddiant i roi sicrwydd eu bod yn cyflwyno'r safonau addysgol a fydd yn sicrhau bod graddedigion deintyddol yn addas i gael eu cofrestru. | Cyhoeddwyd ein hadolygiad addysg blynyddol cyntaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau o arolygiadau, gan gynnwys meysydd arferion da, meysydd i'w datblygu a phwyntiau dysgu.<br>Cwblhawyd arolygiadau o holl raglenni deintyddiaeth y DU yn y cyfnod 2012 - 2014. Roeddynt i gyd yn ddigonol at ddibenion cofrestru.<br>Cwblhawyd 42 o ymweliadau arolygu â 19 rhaglen yn 2013/14 ac rydym yn disgwyl cynnal 32 o arolygiadau ar draws 17 rhaglen yn 2014/15.<br>Rydym yn cefnogi sefydliadau lle mae angen sicrwydd ansawdd ychwanegol ac mae tystiolaeth o welliannau amlwg i raglenni lle mae cymorth wedi'i ddarparu.<br>Mae ein dull o reoleiddio'n ystyried llawer o'r gwersi hyn o adroddiad Francis 2013. Mae arolygwyr yn siarad gyda myfyrwyr ac yn ystyried unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â phryderon am ofal cleifion. |
| • Gwerthuso teilyngdod cyflwyno 'hyfforddiant cyn cofrestru' ar gyfer yr holl raddedigion deintyddol newydd | Ymgynghorwyd yn flaenorol â darparwyr addysg a hyfforddiant cyn cofrestru fel rhan o'r adolygiad cyn gweithredu'r Safonau Addysg. |
| • Datblygu dulliau sicrhau ansawdd ar gyfer hyfforddiant arbenigol sy'n arwain at fynd ar y rhestrau arbenigwyr | Ar ôl ymgynghori ar Safonau ar gyfer Addysg Arbenigeddau yn 2014, byddwn yn sicrhau bod darparwyr a hyfforddeion yn eu deall yn glir fel y sail ar gyfer sicrhau ansawdd. |

# 3 | Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2015

## parhad

### Amcan strategol 4:

*Meithrin partneriaethau gyda chyrff eraill a dylanwadu ar reoleiddio deintyddiaeth i warchod cleifion*

| Amcan yn y Cynllun Busnes | Cyflawni yn erbyn yr amcan |
|---|---|
| • Ymgysylltu â Chomisiynau'r Gyfraith a'r Adran Iechyd er mwyn sicrhau newid effeithiol<br>• Paratoi ar gyfer gweithredu diwygiadau y cytunwyd arnynt sy'n deillio o newid deddfwriaethol | Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth sydd wedi dyddio. Wrth ymdrin ag achosion Addasrwydd i Ymarfer, mae'n ofynnol i ni alw cyfarfodydd costus a chynnal gwrandawiadau cychwynnol lle gallai archwilwyr achosion wneud penderfyniadau yn fwy effeithlon.<br>Gan weithio gyda'r Adran Iechyd, rydym wedi derbyn cefnogaeth gan Weinidogion i ddiwygiad i'n deddfwriaeth i gyflwyno archwilwyr achos. Yn anffodus, nid oedd digon o amser i wneud y newid hwn yn y Senedd diwethaf, felly byddwn yn parhau i lobïo dros newid yn 2015. |
| • Ymateb a dylanwadu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n effeithio ar reoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol | Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael pwerau i brofi cymhwysedd Saesneg gweithwyr proffesiynol sy'n gwneud cais i ymuno â'r gofrestr o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, ac rydym yn parhau i weithio gyda'r Adran Iechyd ar ddyddiad gweithredu.<br>Rydym hefyd yn paratoi i roi'r gwelliannau i Gyfarwyddeb yr UE ar Gymwysterau Proffesiynol ar waith yn 2016 a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i rannu pryderon yn fwy systematig am weithwyr deintyddol proffesiynol ledled yr UE. |
| • Datblygu partneriaethau effeithiol gyda sefydliadau cleifion<br>• Meithrin partneriaethau strategol gyda rheoleiddwyr systemau gofal iechyd a chyrff rheoleiddio proffesiynol sydd er budd y cyhoedd a chleifion<br>• Cyfrannu ein harbenigedd, yn ôl yr angen, i sicrhau bod newidiadau wrth gyflwyno gofal iechyd yn y DU yn rhoi ystyriaeth briodol i'r ffordd y mae gweithwyr deintyddol proffesiynol yn cael eu rheoleiddio | Mae ein gwaith o feithrin a chynnal cysylltiadau effeithiol wedi cynnwys gweithio gyda: y Gwasanaeth Cymorth a Chyngor Cleifion; NHS Complaints Personnel Association Scotland; Scottish Health Council; y Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Annibynnol, Barn Cleifion ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban.<br>Mae gennym gytundebau rhannu gwybodaeth ar waith i hyrwyddo cydweithio ar draws y system, er enghraifft datblygu trefniadau gyda'r GIG yn Lloegr i sicrhau cydweithio mwy effeithiol ar lefel leol. Rydym yn hysbysu partneriaid o ganlyniadau gwrandawiadau'r Pwyllgor Ymarfer a'r Pwyllgor Gorchymyn Interim, ac yn rhannu gwybodaeth yn gynharach yn ein proses Addasrwydd i Ymarfer gyda'r GIG a chyflogwyr.<br>Sefydlwyd 'Bwrdd y Rhaglen Rheoleiddio'r Gwasanaeth Deintyddol' gyda'r GIG, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a Healthwatch England i hyrwyddo cydgysylltu, cysondeb, er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac er mwyn a deall risgiau'n well.<br>Mae cyfres o raglenni peilot gyda 5 tîm ardal leol GIG yn Lloegr yn ceisio nodi cwynion sy'n fwy addas i'w datrys yn lleol drwy ddefnyddio fframwaith rheoli perfformiad y GIG. |

| • Amcan yn y Cynllun Busnes | Cyflawni yn erbyn yr amcan |
|---|---|
| • Datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn effeithiol. | Parhawyd i gyfarfod â Gweinidogion, uwch weision sifil, cyd-reoleiddwyr, a'r Prif Swyddogion Deintyddol i drafod materion a phryderon polisi.<br>Mae timau staff yn canolbwyntio ar bob un o'r pedair gwlad, gan gasglu gwybodaeth, i fonitro polisi, dadansoddi tueddiadau a rhannu gwybodaeth.<br>Rydym yn cyfarfod rhanddeiliaid fel aelodau Fforwm Rheoleiddio'r Alban.<br>Rydym yn cyfarfod Senedd yr Alban, y tîm rheoleiddio a byrddau iechyd tiriogaethol ac arbennig.<br>Yn 2014, buom yn gweithio gydag Arolygiaeth Iechyd Cymru i ddatblygu cytundeb rhannu gwybodaeth sydd â'r nod o sicrhau bod y cyfathrebu rhwng y ddau gorff yn cynnig diogelwch effeithiol i gleifion.<br>Yng Ngogledd Iwerddon, mynychwyd digwyddiad rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rôl rheoleiddwyr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i Aelodau'r Cynulliad Deddfwriaethol. |

**Amcan strategol 5:**

*Cyflwyno rheoleiddio cost effeithiol, gan sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf heb golli gwarchodaeth i gleifion.*

| Amcan yn y Cynllun Busnes | Cyflawni yn erbyn yr amcan |
|---|---|
| • Pennu'r ffi flynyddol ar y gyfradd ofynnol er mwyn gallu rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol | Codwyd y Ffi Gadw Flynyddol ar gyfer deintyddion o £576 i £890 ar ôl ymgynghori eang ar yr egwyddorion sylfaenol y dylid pennu'r ffi arnynt a lefel y ffi.<br>Roedd y cynnydd mawr yn ofynnol i fuddsoddi mewn adnoddau ychwanegol i ymdrin â'r cynnydd mewn achosion Addasrwydd i Ymarfer yn ystod y 2 flynedd flaenorol. Cafodd y Ffi Gadw Flynyddol ei gostwng ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol o £120 i £116 o ganlyniad i gymhwyso'r polisi Ffi Gadw Flynyddol newydd sy'n cysylltu lefel y ffi â chost rheoleiddio'r grŵp penodol o weithwyr deintyddol proffesiynol. |
| • Gostwng costau ein prosesau addasrwydd i ymarfer trwy newid trefniadol | Mae nifer y dyddiau gwrandawiadau sy'n cael eu colli neu eu gwastraffu (lle nad yw gwrandawiad yn bwrw rhagddo a lle na allwn ddod o hyd i waith amgen ar gyfer panel yn y cyfnod a restrir) wedi lleihau i'w lefel isaf ers 3 blynedd neu 18% o gyfanswm y dyddiau gwrandawiadau, o gymharu â 41% yn 2012.<br>Mae ein Gwasanaeth Erlyniadau Cyfreithiol mewnol, a gyflwynwyd yn 2013, wedi cynhyrchu arbedion clir o £1 miliwn, gan ryddhau cronfeydd ar gyfer ail-fuddsoddi.<br>Cyflwynwyd dull o reoli'r contractau yn fwy cadarn gyda'n tri darparwr cyfreithiol allanol, gan arwain at arbedion costau clir sylweddol.<br>Mae gwaith arall i leihau costau a gwella effeithlonrwydd yn cynnwys bwndelu electronig ar gyfer paneli, a chynnal swyddogaeth eirioli fewnol. |

# 3 | Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2015

## parhad

| • Amcan yn y Cynllun Busnes | Cyflawni yn erbyn yr amcan |
|---|---|
| • Gweithredu strwythurau llywodraethu newydd yn effeithiol, gan gynnwys lleihau maint y Cyngor. | Ym mis Ionawr 2015, penododd y Cyngor Bwyllgor Penodiadau annibynnol newydd i arolygu gwaith recriwtio, hyfforddi a rheoli perfformiad ein Paneli Addasrwydd i Ymarfer a Phwyllgor Ymchwilio'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Penodiadau newydd yn cynnwys cadeirydd lleyg a thri aelod.<br>Cyflwynwyd model Cerdyn Sgorio Cytbwys i allu adrodd yn well ar berfformiad i'r Tîm Gweithredol a'r Cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod modd nodi'r meysydd sydd angen eu gwella'n haws. |
| • Gwneud defnydd cynyddol o wasanaethau ar-lein | Lansiwyd gwefan eGDC newydd mwy ymatebol a modern.<br>Gwnaed newidiadau i'r gofrestr ar-lein er mwyn gallu dangos y gweithwyr deintyddol dros dro a'r ymarferwyr deintyddol sy'n ymweld. |
| • Datblygu a chyflwyno rhaglen waith gydweithredol gyda rheoleiddwyr eraill | Datblygwyd nifer o Femoranda Dealltwriaeth drwy nawdd y Grŵp Rhannu Gwybodaeth ac maent wedi gweithio'n agos gydag NHS England, NHS Protect a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i sicrhau bod y cytundebau hynny'n diogelu'r cyhoedd yn ddigonol. |
| • Cynnal adolygiad o'r holl gaffael i sicrhau ein bod yn derbyn gwerth am arian | Cynhaliwyd deunaw ymarfer caffael gwerth mwy na £5 miliwn. Mae arbedion o £370,000 wedi'u gwneud. |
| • Gwella gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Yn ystod 2014, uwchraddiwyd ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, gan ei chyflwyno'n raddol i'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol a'i defnyddio i gefnogi prosesau allweddol yn y maes Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestru.<br>Rydym wedi cyflwyno prosesau newydd i gasglu data Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestru yn fyw, er mwyn gwella ein dull o adrodd ar berfformiad.<br>Mae bwndelu papurau'n electronig ar gyfer cyfarfodydd panel Addasrwydd i Ymarfer yn gwella diogelwch gwybodaeth ac mae'n fwy effeithlon. |

**Amcan strategol 6:**

*Rheoli'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn effeithiol a chefnogi ein staff i gyflawni ein hamcanion.*

| Amcan yn y Cynllun Busnes | Cyflawni yn erbyn yr amcan |
|---|---|
| • Gwella ein hymgysylltiad â staff mewn ymateb i adborth parhaus | • Ymgysylltwyd â staff ar sawl menter allweddol, er enghraifft:<br>• Rhaglen newid 12 mis, a lansiwyd ym mis Rhagfyr;<br>• Newidiadau i'n hagwedd at gyflog a gwobrwyo;<br>• Gwelliannau i'n proses Addasrwydd i Ymarfer;<br>• Sefydlu Gweithgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. |
| • Sicrhau bod ein rhaglen datblygiad proffesiynol yn arfogi staff i ymateb i ofynion newidiol y sefydliad | Yn 2014, lansiwyd nifer o weithgareddau i gefnogi datblygiad proffesiynol ein staff:<br>• Mae gan ein rhaglen newid sefydliad 12 mis bedair blaenoriaeth allweddol - arweinyddiaeth effeithiol a rheoli perfformiad, swyddogaeth gyfathrebu effeithiol, systemau a phrosesau cadarn, a strwythur sefydliadol addas i'w ddiben;<br>• Mae ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth newydd, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2014, yn ceisio gwella ansawdd ein harweinyddiaeth. |
| • Adolygu'r strategaeth cydnabod a gwobrwyo a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol | Adolygwyd y strategaeth cydnabod a gwobrwyo fel rhan o'r broses o gyflwyno ein strwythur cyflogau newydd. Rhoddwyd y strwythur ar waith ar 1 Ebrill 2015.<br>Byddwn yn mesur perfformiad ein holl staff yn awr fel rhan o broses arfarnu flynyddol ddiwygiedig sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflog a pherfformiad. |
| • Ailddatblygu safle pencadlys y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn Llundain<br>• Defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd sy'n cefnogi cynaliadwyedd ac adlewyrchu arferion gorau amgylcheddol | Parhawyd â'r gwaith o ailddatblygu ein pencadlys yn 37 Wimpole Street a'r gobaith yw ei gwblhau yn ystod haf 2015.<br>Cynhaliwyd y prosiect yn seiliedig ar egwyddorion dylunio cynaliadwy, effeithlonrwydd ynni a lleihau $CO_2$. |
| • Parhau i ddatblygu a gweithredu ein strategaeth a'n cynllun gweithredu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth | Mae Gweithgor Ansawdd ac Amrywiaeth a sefydlwyd i ddiweddaru a monitro ein polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn sicrhau ein bod yn parhau'n ymwybodol o egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy'r sefydliad. |

# 4 | Adroddiad ystadegol

### Cofrestru

Rhaid i ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer yn gyfreithlon yn y DU. Mae'n rhaid i bawb sy'n ymuno â'r gofrestr ddangos bod ganddynt y cymwysterau gofynnol neu lwyddo mewn asesiad ac mae'n rhaid iddynt hefyd fodloni'r gofynion iechyd a chymeriad er mwyn bod yn addas i ymarfer fel aelod o dîm deintyddol.

Gellir gwneud cais i ymuno â'r gofrestr mewn sawl ffordd. Rhaid i ymgeisydd ddangos bod ganddo un o'r canlynol:

- cymhwyster cydnabyddedig o'r DU;
- cymhwyster cydnabyddedig o Ewrop;
- cymhwyster cydnabyddedig o'r tu allan i Ewrop;
- asesiad o addasrwydd i gofrestru gan banel asesu sgiliau a gwybodaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (yn achos unigolion cymwys o'r tu allan i Ewrop ac sydd â statws unigolyn esempt); neu ei fod
- wedi llwyddo yn yr Arholiad Cofrestru Tramor (ar gyfer deintyddion o'r tu allan i Ewrop sydd wedi cymhwyso dramor nad ydynt yn elwa ar hawliau cymunedol y gellir eu gorfodi).

### Rhestri arbenigwyr:

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd yn cadw rhestri o weithwyr cofrestredig sy'n ddigon cymwys neu brofiadol i'w galw eu hunain yn arbenigwyr mewn meysydd deintyddol penodol.

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus:

Er mwyn rhoi hyder i'r cyhoedd bod pob gweithiwr deintyddol proffesiynol yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf, mae'n ofynnol iddynt gyflawni gweithgareddau datblygu proffesiynol parhaus.

### 1. Cyfanswm yr unigolion ar y Gofrestr Deintyddion a'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol ar ddiwedd 2014, wedi'u rhannu yn ôl deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol

| Grŵp cofrestru | Nifer y bobl |
|---|---|
| Deintyddion | 41,038 (39%) |
| Gweithiwr gofal deintyddol | 65,275 (61%) |
| Cyfanswm | 106,313 |

Mae'r tabl hwn yn dangos faint o bobl sydd ar y gofrestr. Dim ond unwaith y mae gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sydd â mwy nag un teitl, er enghraifft hylenydd deintyddol sydd hefyd yn therapydd deintyddol, yn cael eu cyfrif yn y tabl hwn.


### 2. Cyfanswm yr unigolion ar y Gofrestr Deintyddion a'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol ar ddiwedd 2014, wedi'u rhannu yn ôl rhyw.

| Grŵp cofrestru | Nifer y bobl | Dynion | Menywod |
|---|---|---|---|
| Deintyddion | 41,038 (39%) | 22,139 (79%) | 18,899 (24%) |
| Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol | 65,275 (61%) | 5,787 (21%) | 59,488 (76%) |
| Cyfanswm | 106,313 | 27,926 | 78,387 |

### 3. Cyfanswm yr unigolion ar y Gofrestr Deintyddion a'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Proffesiynol ar ddiwedd 2014, wedi'u rhannu yn ôl teitl.


| Teitl | Cyfanswm |
|---|---|
| Deintydd | 41,038 (37.3%) |
| Technegydd deintyddol clinigol | 305 (0.3%) |
| Hylenydd deintyddol | 6,573 (6.0%) |
| Nyrs ddeintyddol | 52,839 (48.1%) |
| Technegydd deintyddol | 6,315 (5.7%) |
| Therapydd deintyddol | 2,481 (2.2%) |
| Therapydd orthodonteg | 405 (0.4%) |
| Cyfanswm | 109,956 |

Mae'r tabl hwn yn dangos cyfanswm pob math o weithiwr deintyddol proffesiynol ar y gofrestr. Caiff unigolion sydd â mwy nag un teitl ei gyfrif unwaith ar gyfer pob teitl sydd ganddo, felly mae'r cyfanswm yn y tabl yn fwy na chyfanswm y bobl a gyfrifwyd yn nhabl un.



### 4. Ychwanegiadau i'r Gofrestr yn 2013, wedi'u rhannu yn ôl teitl


| Teitl | Total |
|---|---|
| Deintydd | 2,263 |
| Technegydd deintyddol clinigol | 2 |
| Hylenydd deintyddol | 291 |
| Nyrs ddeintyddol | 5,394 |
| Technegydd deintyddol | 309 |
| Therapydd deintyddol | 211 |
| Therapydd orthodonteg | 3 |
| Cyfanswm | 8,473 |




### 5. Deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ar y gofrestr ddiwedd 2013

- Deintyddion, yn ôl eu lleoliad cymhwyso

| Rhanbarth Cymhwyso | Cyfanswm |
|---|---|
| ORE (Arholiad Tramor y DU) | 2,820 (6.9%) |
| Cymhwyso dramor | 1,846 (4.5%) |
| Cymhwyso yn y DU | 29,426 (71.7%) |
| Cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | 6,946 (16.9%) |
| Cyfanswm | 41,038 |




- Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol, yn ôl eu lleoliad cymhwyso


| Teitl | Cyfanswm | DU* | Cymhwyso y tu allan i'r DU |
|---|---|---|---|
| Technegydd deintyddol clinigol | 305 | 305 (100%) | 0 |
| Hylenydd deintyddol | 6,573 | 6,257 (95%) | 316 (5%) |
| Nyrs ddeintyddol | 52,839 | 52,644 (99%) | 195 (1%) |
| Technegydd deintyddol | 6,315 | 6,102 (97%) | 213 (3%) |
| Therapydd deintyddol | 2,481 | 2,469 (99%) | 12 (1%) |
| Therapydd orthodonteg | 405 | 403 (99%) | 2 (1%) |
| | 68,918 | 68,180 (99%) | 738 (1%) |

*Yn cynnwys pobl a ymunodd â chofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o ganlyniad i brofiad a wiriwyd, cymhwysedd a wiriwyd neu drosglwyddiad o gofrestri gwirfoddol ar adeg y trefniadau pontio wrth sefydlu cofrestr y gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol.

## 6. Deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol a ychwanegwyd i'r gofrestr yn 2014, yn ôl lleoliad cymhwyso

• Deintyddion a ychwanegwyd i'r gofrestr yn 2014, yn ôl lleoliad cymhwyso

| Rhanbarth Cymhwyso | Cyfanswm |
|---|---|
| ORE (Arholiad Tramor y DU) | 227 (10.0%) |
| Cymhwyso dramor | 79 (3.5%) |
| Cymhwyso yn y DU | 1,311 (58.0%) |
| Cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | 646 (28.5%) |
| Cyfanswm | 2,263 |




• Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol a ychwanegwyd i'r gofrestr yn 2014, yn ôl lleoliad cymhwyso

| Teitl | Cyfanswm | DU | Cymhwyso y tu allan i'r DU |
|---|---|---|---|
| Technegydd deintyddol clinigol | 2 | 2 (100%) | 0 |
| Hylenydd deintyddol | 291 | 263 (90%) | 28 (10%) |
| Nyrs ddeintyddol | 5,394 | 5,351 (99%) | 43 (1%) |
| Technegydd deintyddol | 309 | 260 (84%) | 49 (16%) |
| Therapydd deintyddol | 211 | 207 (98%) | 4 (2%) |
| Therapydd orthodonteg | 3 | 3 (100%) | 0 |
| | 6,210 | 6,086 (98%) | 124 (2%) |

# 4 | Adroddiad ystadegol


## parhad


### 7. Deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol a ychwanegwyd i'r Gofrestr yn 2014, yn ôl rhyw

| Teitl | Cyfanswm | Dynion | Menywod |
|---|---|---|---|
| Deintydd | 2,263* | 942 **(42%)** | 1,320 **(58%)** |
| Technegydd deintyddol clinigol | 2 | 2 **(100%)** | 0 |
| Hylenydd deintyddol | 291 | 21 **(7%)** | 270 **(93%)** |
| Nyrs ddeintyddol | 5,394 | 116 **(2%)** | 5,278 **(98%)** |
| Technegydd deintyddol | 309 | 196 **(63%)** | 113 **(37%)** |
| Therapydd deintyddol | 211 | 17 **(8%)** | 194 **(92%)** |
| Therapydd orthodonteg | 3 | 0 | 3 **(100%)** |
| | 8,473 | 1,294 | 7,178 |

*Ni ddatgelodd un unigolyn ei ryw.

Dim ond unwaith y caiff pobl sydd â chofrestriad deuol eu cyfrif.




### 8. Dadansoddiad o Restri Arbenigol ar ddiwedd 2014

| Arbenigedd Deintyddol | Cyfanswm |
|---|---|
| Radioleg Ddeintyddol a'r Genau a'r Wyneb | 27 |
| Iechyd Cyhoeddus Deintyddol | 119 |
| Endodonteg | 267 |
| Patholeg y Geg a'r Genau a'r Wyneb | 30 |
| Meddygaeth y Geg | 69 |
| Microbioleg y Geg | 8 |
| Llawdriniaeth y Geg | 759 |
| Orthodonteg | 1,386 |
| Deintyddiaeth Baediatreg | 242 |
| Periodonteg | 358 |
| Prosthodonteg | 443 |
| Deintyddiaeth Adferol | 317 |
| Deintyddiaeth Gofal Arbennig | 322 |
| | 4,347 |

## Addasrwydd i Ymarfer

Rhaid i ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol fodloni gofynion arbennig wrth gofrestru yn y lle cyntaf ac yna'n barhaus trwy gydol eu gyrfaoedd er mwyn ymarfer. Os bydd eu haddasrwydd i ymarfer yn cael ei gwestiynu yn sgil cwyn, collfarn neu rybudd, mae'n bosibl y byddant yn gorfod wynebu prosesau addasrwydd i ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae pob cwyn a hysbysiad addasrwydd i ymarfer yn cael eu hadolygu yn y cam brysbennu i ddechrau. Mae materion sydd angen asesiad pellach yn symud ymlaen i gam ymchwilio. Bydd materion sy'n awgrymu nad yw rhywun yn addas i ymarfer yn cael eu hatgyfeirio i banel Pwyllgor Ymchwilio.

Mae panel y Pwyllgor Ymchwilio yn cynnwys gweithwyr cofrestredig a lleygwyr ac rydym yn penodi pob Pwyllgor Ymchwilio o'r panel hwn. Gallai Pwyllgor Ymchwilio benderfynu nad oes angen gweithredu pellach neu fod llythyr cynghori neu rybudd yn ddigonol.

Mewn achosion a allai fod yn fwy difrifol, gall panel y Pwyllgor Ymchwilio atgyfeirio'r mater i un o'r tri Phwyllgor Ymarfer: y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol; y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol; neu'r Pwyllgor Iechyd am wrandawiad ffurfiol. Bydd gweithwyr deintyddol proffesiynol a atgyfeirir i Bwyllgor Ymarfer yn ymddangos gerbron panel annibynnol o aelodau lleyg a gweithwyr deintyddol proffesiynol mewn gwrandawiad ffurfiol lle bydd gan y Cyngor a'r gweithiwr cofrestredig yr hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol.

Yn ystod pob cam o'n gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer, gellir atgyfeirio mater i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim am wrandawiad. Gall y pwyllgor hwn atal cofrestriad gweithwyr deintyddol proffesiynol ar unwaith neu osod amodau ar eu statws cofrestru wrth aros am adolygiad.

Derbyniwyd cyfanswm o 3,099, o achosion yn 2014, o gymharu â 2,990 yn 2013 – cynnydd o 4%[1].

Nifer yr achosion a gafodd eu cau neu eu hatgyfeirio ym mhob cam o'r gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer oedd:

| | |
|---|---|
| **Brysbennu:** | **3,222**<br>(Nifer yr achosion yn y cam brysbennu a gafodd eu cau neu eu hatgyfeirio i'w hasesu. Efallai nad yw'r cyfanswm hwn yn gyson â'r cyfanswm ar gyfer y flwyddyn (3,099), gan y bydd rhai o'r achosion brysbennu wedi eu derbyn yn y flwyddyn flaenorol). |
| **Asesu:** | **2,567**<br>(Nifer yr achosion yn y cam asesu a gafodd eu cau neu eu hatgyfeirio i'r Pwyllgor Ymchwilio) |
| **Pwyllgor Ymchwilio:** | **1,012**<br>(Nifer yr achosion yn y Pwyllgor Ymchwilio a gafodd eu cau neu eu hatgyfeirio i Bwyllgor Ymarfer) |
| **Pwyllgor Ymarfer:** | **403**<br>Nifer yr achosion a gafodd eu hatgyfeirio o'r Pwyllgor Ymchwilio i Bwyllgor Ymarfer. D.S. Gall gweithwyr cofrestredig unigol gael eu cyfrif fwy nag unwaith. O'r 403, aeth 122 ymlaen i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim. |


[1] Mae ymchwil bellach ar waith i ddeall beth sydd wedi achosi'r cynnydd mewn cwynion yn y blynyddoedd diwethaf, ond gall ffactorau posibl gynnwys: mae cleifion yn cwyno i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn hytrach nag i'w sefydliadau gofal sylfaenol lleol; mwy o ymwybyddiaeth o sut i gwyno oherwydd bod mwy yn defnyddio'r rhyngrwyd; ac effaith newidiadau i reolau 'dim ennill, dim ffi' sydd wedi arwain at gyfeirio mwy o achosion i'r Cyngor.

# 4 | Adroddiad ystadegol

## parhad

**Canran yr achosion Addasrwydd i Ymarfer a gafodd eu brysbennu o fewn y targed o 14 diwrnod**

Nifer yr achosion Addasrwydd i Ymarfer o fewn y targed o gael eu Brysbennu o fewn 14 diwrnod





Yn 2014, o'r 3,222 o achosion a gafodd eu hadolygu yn y cam brysbennu, nodwyd 888 achos y gellid eu cau heb ymchwiliad pellach. Roedd hyn yn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio adnoddau ar achosion a oedd yn debygol o arwain at brofi cyhuddiad o ddiffyg Addasrwydd i Ymarfer.

Ar gyfartaledd, derbyniodd 71% o'r achosion a adolygwyd yn y cam brysbennu benderfyniad cychwynnol o fewn 14 diwrnod yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Cododd hyn i 97% yn ystod ail hanner 2014. Mae hyn ar ôl gwneud gwelliannau i'r broses brysbennu yng nghanol 2014 i wella prydlondeb.

**Canran yr achosion ymchwilio Addasrwydd i Ymarfer a gwblhawyd o fewn y targed o 6 mis o'r dyddiad derbyn**


Nifer yr achosion Addasrwydd i Ymarfer o fewn y targed o 6 mis i gwblhau'r cyfnod ymchwilio o'r dyddiad derbyn




Mae perfformiad o ran cwblhau achosion yn y cam ymchwilio o fewn y targed o 6 mis o'r dyddiad derbyn wedi bod rhwng 84% a 89% gydol 2014..

### Canran yr achosion Addasrwydd i Ymarfer a dderbyniodd wrandawiad cychwynnol o fewn 9 mis o'u hatgyfeirio gan y Pwyllgor Ymchwilio

Nifer yr achosion o fewn Targed Dangosydd Perfformiad Allweddol 3 o Bwyllgor Ymchwilio i Wrandawiad o fewn 9 mis





- Cafwyd gwelliant mewn prydlondeb yn y cyfnod gwrandawiad yn 2014. Cyrhaeddodd 65% o achosion wrandawiad o fewn naw mis i'w cyfeirio gan y Pwyllgor Ymchwilio. Mae hyn o gymharu â chyfartaledd o 49% yn 2013.
- Roedd nifer yr achosion byw a oedd yn aros am wrandawiad cyntaf, a oedd wedi methu ein targed naw mis, yn 12% ar ddiwedd mis Rhagfyr 2014. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y 24% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn er gwaethaf cynnydd yn nifer yr achosion yn y ciw am wrandawiad a oedd yn 261 ar ddiwedd 2014, o gymharu â 180 y flwyddyn gynt.

### Pwyllgor Gorchmynion Interim

- **Cyfanswm gwrandawiadau'r Pwyllgor Gorchmynion Interim yn 2014: 424**
- Nifer yr achosion sy'n ymwneud â deintyddion: 322
- Nifer yr achosion sy'n ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol: 102-56 nyrs deintyddol, 35 technegydd deintyddol, 7 hylenydd deintyddol, 3 thechnegydd deintyddol clinigol ac 1 therapydd deintyddol.

| | |
|---|---|
| Cyflwyno gorchymyn gwahardd interim | 79 |
| Adnewyddu gorchymyn gwahardd interim | 66 |
| Cyflwyno amodau interim | 65 |
| Adnewyddu amodau interim | 79 |
| Dim gorchymyn | 104 |
| Codi gwaharddiad / amodau | 6 |
| Gohirio | 25 |




# 4 | Adroddiad ystadegol

## parhad

### Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol

- Nifer yr achosion y gwrandawyd arnynt yn 2014: 7 (yr holl ddeintyddion)

| | |
|---|---|
| Dileu gyda gwaharddiad ar unwaith | 1 |
| Amodau | 3 |
| Addasrwydd i Ymarfer heb ei amharu | 3 |




### Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol


- Cyfanswm y gwrandawiadau yn 2014: 187
- Nifer yr achosion a oedd yn ymwneud â deintyddion 160
- Nifer yr achosion a oedd yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol: 27 - 16 nyrs deintyddol, 8 technegydd deintyddol, 2 technegydd deintyddol clinigol ac 1 hylenydd/therapydd deintyddol

| | |
|---|---|
| Dileu gyda gwaharddiad yn syth | 32 |
| Dileu | 1 |
| Gwahardd gydag adolygiad | 23 |
| Gwahardd (heb adolygiad) | 11 |
| Gwahardd am gyfnod amhenodol | 3 |
| Amodau | 41 |
| Amharu ar Addasrwydd i Ymarfer - cerydd | 14 |
| Amharu ar Ansawdd i Ymarfer – achos wedi'i gwblhau | 2 |
| Achos wedi'i gwblhau ar ôl gwaharddiad | 6 |
| Achos wedi'i gwblhau ar ôl amodau | 17 |
| Addasrwydd i Ymarfer heb ei amharu | 24 |
| Dim camymddwyn | 11 |
| Dim achos i'w ateb | 2 |

### Y Pwyllgor Iechyd

- Cyfanswm y gwrandawiadau 21
- Nifer yr achosion a oedd yn ymwneud â deintyddion: 14
- Nifer yr achosion a oedd yn ymwneud â gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol: 7
(6 nyrs deintyddol ac 1 technegydd deintyddol)

| | |
|---|---|
| Gwahardd | 8 |
| Gwahardd am gyfnod amhenodol | 4 |
| Amodau | 5 |
| Heb amharu (neu ddim yn amharu mwyach) | 3 |
| Gohirio | 1 |



**Gwrandawiadau wedi'u gohirio ar eu hanner ar ddiwedd y flwyddyn – 8**

**Materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol/Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol**

Materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol/Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol yn 2014

| Mater | Sawl gwaith* |
|---|---|
| Triniaeth wael | 94 |
| Cadw cofnodion gwael | 66 |
| Twyll/anonestrwydd | 47 |
| Methu cymryd radiograffau priodol | 41 |
| Methu cael caniatâd/egluro triniaeth | 37 |
| Materion presgripsiwn | 21 |
| Methu cydweithredu â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol neu fethu datgelu collfarnau/rhybuddion | 16 |
| Ymddygiad personol | 15 |
| Methu cofnodi hanes meddygol a/neu ddeintyddol | 14 |
| Gweithio y tu allan i gwmpas ymarfer | 12 |
| Collfarn neu rybudd – alcohol neu gyffuriau | 11 |
| Rheoli croes-heintio | 8 |
| Collfarn neu rybudd – dwyn/twyll | 6 |
| Hysbysebu camarweiniol | 6 |
| Ymosodiad anweddus neu ymddygiad rhywiol amhriodol | 6 |
| Methu cydweithredu â'r Bwrdd Iechyd | 5 |
| Collfarn neu rybudd – arall | 5 |
| Collfarn neu rybudd – ymosodiad | 5 |
| Dim yswiriant indemniad proffesiynol | 5 |
| Rheswm dros driniaeth (GIG/preifat) ddim yn glir | 5 |
| Methu hysbysu cleifion am ddigwyddiad niweidiol | 4 |
| Methu cadw gwastraff peryglus yn briodol | 2 |
| Collfarn am ddelweddau anweddus neu bornograffig | 2 |
| Gwneud sylwadau tramgwyddus hiliol | 2 |
| Methu canser y geg | 2 |
| Methu anesthetigo | 2 |
| Gwynnu dannedd | 2 |
| Methu cofrestru ymarfer gyda CQC | 2 |
| Cyfnod o ymarfer heb gofrestru | 1 |
| Cyflogi deintydd nad yw wedi'i gofrestru gyda'r Deintyddol Cyffredinol | 1 |

**Dyddiau gwrandawiadau yn 2014**

| | |
|---|---|
| Nifer y dyddiau gwrandawiadau a drefnwyd | 1,246 |
| Cynnydd yn nifer y dyddiau gwrandawiadau a drefnwyd o gymharu â 2013 | 17% |
| Cyfartaledd hyd gwrandawiad cychwynnol y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu'r Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol | 3.87 diwrnod* |

*ar ôl tynnu achos hir iawn a barhaodd am 72 diwrnod – cyn ei dynnu, roedd y cyfartaledd yn 4.23 diwrnod


# 4 | Adroddiad ystadegol

## parhad

### Gwybodaeth gysylltiedig

Yr amser a gymerwyd i gwblhau gwrandawiad cychwynnol achosion ar ôl atgyfeirio o'r Pwyllgor Ymchwilio (heb gynnwys adolygiadau):

| | |
|---|---|
| 0-9 mis | 94 |
| 10-12 mis | 24 |
| 13-18 mis | 16 |
| 19-24 mis | 6 |
| 25-30 mis | 5 |
| 31+ mis | 2 |




### Cais i Adfer

| Nifer a ystyriwyd | 1 |
|---|---|
| Adfer (gydag amodau) | 0 |
| Heb adfer | 1 |

# 5 | Strwythur y Cyngor

Penodwyd y Cyngor ym mis Hydref 2013 ac mae'n cynnwys 12 aelod: 6 aelod deintyddol proffesiynol a 6 aelod lleyg. Roedd aelodau'r Cyngor yn 2014 fel a ganlyn:

Ymddiswyddodd Jason Stokes fel aelod o'r Cyngor o 24 Hydref 2014 a phenodwyd Catherine Brady fel aelod deintyddol proffesiynol ar 1 Mehefin 2015.

| Aelodau deintyddol proffesiynol | Aelodau lleyg |
|---|---|
| Kirstie Moons | William Moyes (Cadeirydd) |
| Margaret Kellett | Geraldine Campbell |
| Lawrence Mudford | Michael Carroll |
| Jayendra Patel | Rosemary Carter |
| David Smith | Alan MacDonald |
| Jason Stokes (ymddiswyddodd 24 Hydref 2014) | Neil Stevenson |

### Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor yn 2014

| Enw | 20/2 | 1/4 | 20/5 | 18/6 | 24/7 | 18/9 | 30/10 | 4/12 | Cyfanswm presenoldeb mewn cyfarfodydd y mae aelod yn gymwys i'w mynychu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Geraldine Campbell | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | 8/8 |
| Michael Carroll | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | 8/8 |
| Rosemary Carter | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | 8/8 |
| Margaret Kellett | oedd | oedd | nac oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | 7/8 |
| Alan MacDonald | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | 8/8 |
| Kirstie Moons | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | 8/8 |
| William Moyes (Cadeirydd) | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | 8/8 |
| Lawrence Mudford | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | 8/8 |
| Jayendra Patel | oedd | nac oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | nac oedd | oedd | 6/8 |
| David Smith | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | 8/8 |
| Neil Stevenson | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | 8/8 |
| Jason Stokes | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | oedd | - | - | 6/6 |

Cefnogir Cyngor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan dri phwyllgor anstatudol sefydlog, fel a ganlyn:

| Pwyllgor | Aelodau'r Cyngor |
|---|---|
| Y Pwyllgor Archwilio a Risg | Alan MacDonald (Cadeirydd)<br>Lawrence Mudford<br>David Smith |
| Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad | Michael Carroll (Cadeirydd)<br>Margaret Kellett<br>Kirstie Moons (penodwyd 18 Medi 2014)<br>Jayendra Patel<br>Neil Stevenson |
| Y Pwyllgor Tâl | Rosemary Carter (Cadeirydd)<br>Geraldine Campbell<br>Jason Stokes (ymddiswyddodd 24 Hydref 2014) |

# 5 | Strwythur y Cyngor

## parhad

### Aelodau annibynnol o Bwyllgorau a wasanaethodd gydol 2014:

| | |
|---|---|
| Lesley Pearson | Y Pwyllgor Tâl |
| Jennifer Seeley | Y Pwyllgor Archwilio a Risg |

**Pwyllgorau statudol y Cyngor**

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd), mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyfrifoldeb cyffredinol i ymdrin â honiadau sy'n ymwneud â diffyg addasrwydd i ymarfer aelodau o'r proffesiwn deintyddol.

Mae gan y Cyngor chwe phwyllgor statudol, fel y nodwyd yn adran 2 o Ddeddf Deintyddion 1984, i'w gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswydd statudol fel rheoleiddiwr gofal iechyd. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys aelodau panel annibynnol sy'n bobl leyg, deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol. Nid yw aelodau'r Cyngor yn aelodau o'r pwyllgorau statudol, ond mae'r pwyllgorau statudol yn atebol i'r Cyngor am eu perfformiad.

Dyma'r pwyllgorau:

- Y Pwyllgor Gorchmynion Interim
- Y Pwyllgor Ymchwilio
- Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol
- Y Pwyllgor Iechyd
- Y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol
- Y Pwyllgor Apelau Cofrestru

Penodir y pwyllgorau hyn gan Bwyllgor Penodiadau sy'n cynnwys wyth aelod lleyg nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor a gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni unrhyw swyddogaeth yn ymwneud â phenodi aelodau pwyllgorau statudol, gan gynnwys recriwtio, dethol, gwerthuso a disgyblu'r cyfryw aelodau.

Am ragor o wybodaeth am waith ac aelodaeth pwyllgorau statudol y Cyngor, ewch i wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[2]

[2] http://www.gdc-uk.org/Aboutus/Thecouncil/Pages/committees.aspx

### Recriwtio Pwyllgor Penodiadau newydd

Daeth cyfnod swyddi'r Pwyllgor Penodiadau presennol i ben ar 31 Rhagfyr 2014. Cynhaliwyd adolygiad o'r ffordd y cyflawnwyd swyddogaethau'r Pwyllgor presennol yn 2014 gan y Bwrdd Gweithredol ar ran y Cyngor, er mwyn sicrhau bod y Cyngor nesaf yn derbyn y gefnogaeth briodol, bod cyfres glir o reolau ac atebolrwydd a bod gwell cost-effeithiolrwydd.

Daeth y Pwyllgor newydd i rym ar 1 Ionawr 2015. Dyma aelodaeth newydd y Pwyllgor Penodiadau:

Rosie Varley (Aelod lleyg – Cadeirydd)

Martyn Green (Aelod cofrestredig)

Tim Skelton (Aelod lleyg)

Nigel Fisher (Aelod cofrestredig)

### Tîm Rheoli Gweithredol

- Yn 2014, roedd y Tîm Rheoli Gweithredol yn cynnwys::
- Evlynne Gilvarry, Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu
- Frances Low, Cyfarwyddwr Llywodraethu (tan 31 Gorffennaf 2015)
- Neil Marshall, Cyfarwyddwr Rheoleiddio (tan 28 Tachwedd 2014)
- Graham Masters, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
- Tim Whitaker, Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu (tan 16 Ionawr 2015)
- Kate Husselbee, Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol (penodwyd 1 Rhagfyr 2014 a phenodwyd yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Llywodraethu 6 Mai 2015)
- Gurvinder Soomal, Cyfarwyddwr Cofrestru (penodwyd 1 Rhagfyr 2014)
- Jonathan Green, Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer (penodwyd dros dro 3 Tachwedd 2014 ac yn barhaol 16 Rhagfyr 2014).

# 6 | Adroddiad tâl

## Y Pwyllgor Tâl

Mae'r adroddiad ar dâl ar gyfer 2014 yn cynnwys adolygiad o'r Cyngor o 1 Ionawr 2014 i 1 Rhagfyr 2014.

Ymddiswyddodd un aelod cofrestredig o'r Cyngor o 24 Hydref 2014 ac mae proses recriwtio wedi'i chwblhau.

Cadwodd y Pwyllgor benodiad Pwyllgor Tâl ar gyfer materion penodol sy'n ymwneud â thâl aelodau'r Cyngor, a chyfarwyddwyr gweithredol ac am bolisi tâl staff cyffredinol. Roedd y Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Rosemary Carter ac roedd yr aelodaeth fel a ganlyn:

Geraldine Campbell, Jason Stokes (tan 24 Hydref 2014) a Lesley Pearson fel aelod annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl penodol ac yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn fel arfer.

## Tâl aelodau'r Cyngor

Mae tâl blynyddol y Cadeirydd yn cael ei bennu gan y pwyllgor ar sail cyfraddau cyffredinol swyddi tebyg a'r amser sy'n ofynnol i gyflawni'r rôl. Mae tâl y Cadeirydd wedi'i bennu ar gyfradd o £55,000 y flwyddyn ar hyn o bryd.

Mae aelodau'r Cyngor yn cael cyfradd flynyddol o £15,000 y flwyddyn gydag ychwanegiadau o £3,000 y flwyddyn i gadeiryddion pwyllgorau.

## Tâl cyfarwyddwyr gweithredol

Mae cynnydd mewn cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol yn dibynnu ar berfformiad unigolion a meincnodau allanol ar gyfer cyflogau.

Gellir dyfarnu taliadau perfformiad ar wahân i gyfarwyddwyr bob blwyddyn, hyd at uchafswm o 20% o'u cyflog am berfformiad eithriadol. Yn ystod 2014, ni wnaed unrhyw daliadau perfformiad. Tra bod y Prif Weithredwr yn gwneud argymhellion ar gyfer ei chyd-gyfarwyddwyr gweithredol, mae unrhyw godiadau cyflog neu gynnydd mewn taliadau eraill yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl.

Mae'r holl gyfarwyddwyr gweithredol yn aelodau o gronfa bensiwn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu'n cael ei benodi'n uniongyrchol gan y Cyngor ac yn atebol i'r Cyngor ac mae ganddo awdurdod i wneud penderfyniadau i'r graddau a ddisgrifir yn y Datganiad Llywodraethu. Mae'r Datganiad yn nodi'n glir mai rôl y Cyngor yw pennu cyfeiriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn unol â'i genhadaeth a'i ddiben; gan sicrhau bod systemau ar waith i'w alluogi i fonitro perfformiad a dwyn y Weithrediaeth i gyfrif; a sicrhau gonestrwydd. Manylion y taliadau a ddatgelir yw'r rhai ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu, ac mae'n rhain yn cael eu nodi'n llawn (gweler nodyn y Cyfrifon).

Gyda'i gilydd, talwyd £746,000 i'r cyfarwyddwyr gweithredol a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys taliadau iawndal o £57,757 a £46,000 i ddau gyn gyfarwyddwr gweithredol, yn ogystal ag unrhyw daliadau yn ystod y cyfnod rhybudd.

## Polisi tâl staff

Datblygir y polisi tâl ar gyfer staff gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol mewn cydweithrediad â'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr gweithredol, cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Tâl.

Roedd y system daliadau a oedd ar waith yn 2014 yn defnyddio system o raddau gyda phwyntiau cyflog cynyddrannol. Cynyddwyd pwyntiau cyflog 1% yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod elfen ar gyfer chwyddiant yn ystod y cyfnod. Cynhaliwyd adolygiad o'r strwythur cyflog yn ystod 2014 a rhoddwyd strwythur diwygiedig ar waith ar 1 Ebrill 2015.

Adolygwyd trefniadau pensiwn yn ystod y flwyddyn gan y Pwyllgor Tâl, er mwyn ymateb i'r angen i reoli'r gwariant sy'n ofynnol i gyllido'r cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn parhau i weithredu cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio sydd ar gael i staff, ar ôl cwblhau cyfnod aros, sy'n cael eu cyflogi neu a dderbyniodd lythyr cynnig cyflogaeth erbyn 31 Rhagfyr 2014. Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio ar sail ymddiriedolaeth sy'n bodloni gofynion cofrestru awtomatig. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo newidiadau amrywiol i gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr i'r cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio a chynnydd graddol yng nghyfraniadau gweithwyr i'r cynllun â buddion wedi'u diffinio.

**Ffioedd a threuliau aelodau'r Cyngor rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2014**

| | Ffioedd Aelodau £ | Treuliau Aelodau £ | Treth ac YG £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Geraldine Campbell | 15,000 | 5,245 | 3,199 | 23,444 |
| Michael Carroll | 18,000 | 4,384 | 3,246 | 25,630 |
| Rosemary Elizabeth Carter | 18,000 | 5,197 | 3,565 | 26,762 |
| Margaret Kellett | 15,000 | 5,120 | 6,231 | 26,351 |
| Alan MacDonald | 18,000 | 15,062 | 7,708 | 40,770 |
| Kirstie Moons | 15,000 | 3,678 | 4,035 | 22,713 |
| William Moyes | 55,000 | 24,677 | 28,111 | 107,788 |
| Lawrence Mudford | 15,000 | 617 | 1,471 | 17,088 |
| Jayendra Patel | 15,000 | 3,032 | 2,264 | 20,296 |
| David Smith | 15,000 | 7,685 | 5,971 | 28,656 |
| Neil Stevenson | 15,000 | 6,076 | 6,431 | 27,507 |
| Jason Stokes | 12,500 | 1,645 | 1,491 | 15,636 |
| | 226,500 | 82,418 | 73,723 | 382,641 |

Mae'r ffigurau yn y tabl uchod wedi'u harchwilio gan haysmacintyre.

Evlynne Gilvarry
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
17 Mehefin 2015

# 7 | Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Gwnaed gwelliannau i gylch gwaith Gweithgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ym mis Awst 2014. Cyfrifoldeb y grŵp yw adolygu a monitro'r polisi a'r cynllun gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Strategaeth Gorfforaethol, yn ogystal â gwneud argymhellion ar gyfer codi ymwybyddiaeth o egwyddorion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth drwy'r Cyngor.

### Caffael

Mae ein dull caffael yn seiliedig ar brosesau a gweithdrefnau cadarn i sicrhau arferion gorau a gwerth am arian. Mae'r holl weithgarwch caffael yn cael ei fonitro i sicrhau bod didwylledd a thryloywder, cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol yn nodweddu ein ffordd o weithio. Rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wneud arbedion effeithlonrwydd tra'n sicrhau bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol.

### Iechyd a diogelwch

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn hyrwyddo amgylchedd iach a heb niwed i'w holl staff ac ymwelwyr â'r safleoedd.

Mae iechyd a diogelwch yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Tîm Rheoli Gweithredol a Phwyllgor Iechyd a Diogelwch y Cyngor. Yn 2014, cafwyd dwy fân ddamwain yn ein swyddfeydd yn Llundain ac un yn ein swyddfa yn Croydon. Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu amgylchedd diogel i staff ac ymwelwyr, cynhaliwyd asesiad risg tân parhaus yn 2014 wrth ailddatblygu 37 Wimpole Street a chymerwyd camau ychwanegol i sicrhau diogelwch, gan gynnwys driliau tân.

### Amgylcheddol

Rydym yn parhau i ailgylchu'r holl wastraff cyfrinachol a'r gwastraff cymysg. Anogir staff i sganio a defnyddio dulliau ffeilio electronig. Anfonir adroddiadau yn dangos sawl tudalen sydd wedi'u hargraffu bob hyn a hyn at staff fel rhan o ymgyrch i leihau gwastraff. Parhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyda'r gwaith o ailddatblygu ei bencadlys, 37 Wimpole Street yn 2014. Cynhaliwyd y prosiect ar egwyddorion cynllunio cynaliadwy, effeithlonrwydd ynni a lleihau CO2. Er enghraifft, mae'r goleuadau newydd yn cael eu gweithredu ar system ymateb i symudiadau ac maent yn diffodd yn awtomatig. Mae dodrefn nad oes eu hangen wedi'u storio dros dro oddi ar y safle a byddant yn cael eu hailddefnyddio pryd bynnag y bo hynny'n bosibl wrth ailddatblygu'r adeilad neu'n cael eu hailgylchu.

### Staff y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Ym mis Rhagfyr 2014, roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyflogi 326 aelod o staff (2013: 278). Mae'r cynnydd hwn yn deillio'n bennaf o swyddi newydd yn y Gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer, gan gynnwys dau dîm i fynd i'r afael â'r ôl-groniad gwaith achos tymor penodol yn gynnar yn 2014 (cyfwerth ag 20 swydd lawn amser). Ceir cymhariaeth o niferoedd staff cyfwerth â llawn amser ar gyfartaledd (sy'n cynnwys staff sy'n gweithio oriau rhan-amser) o un flwyddyn i'r llall a chostau staff cysylltiedig yn yr Adolygiad Ariannol.

#### *Rhyw ac oedran:*

Mae 63% o'n gweithwyr yn fenywod (2013: 52%). Mae'r rhai 50+ oed yn cynrychioli 11.5% o'r gweithlu (2013: 13%).

#### *Ethnigrwydd:*

Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod 44% o'n staff o gefndir gwyn ac 16% o gefndir lleiafrifol ethnig.

Nid oes gennym ddata am y 40% arall, gan mai staff sy'n gyfrifol am gwblhau eu data cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain drwy borth hunanwasanaeth ein cronfa ddata Adnoddau Dynol.

#### *Ymgysylltu â staff:*

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fforwm staff etholedig sy'n cyfarfod bob yn ail fis. Mae'r fforwm dan gadeiryddiaeth aelod o'r Tîm Rheoli Gweithredol. Mae'r fforwm yn cynrychioli'r holl dimau yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn trafod materion staff amrywiol, gan gynnwys adolygu a chyflwyno polisïau Adnoddau Dynol newydd y Cyngor.

Os cynigir newidiadau a allai effeithio ar yr holl staff, cynhelir cyfarfodydd ymgynghori, p'run a yw ymgynghoriad ffurfiol yn ofyniad cyfreithiol ai peidio. Cynhelir hyn o bryd i'w gilydd mewn sesiynau briffio staff chwarterol. Mae'r sesiynau briffio chwarterol yn gyfle hefyd i staff drafod materion a phynciau'n fwy ffurfiol gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Cynhelir arolwg staff bob yn ail flwyddyn hefyd sy'n arwain at gynllun gweithredu cynhwysfawr sy'n seiliedig ar y canfyddiadau. Adroddir ar gynnydd y cynllun gweithredu yn y sesiynau briffio staff chwarterol. Bwriedir cynnal yr arolwg staff nesaf yn chwarter 3 2015.

Mae gan saff y cyfle hefyd i fynegi eu barn a gofyn cwestiynau i'r Tîm Rheoli Gweithredol ar y fewnrwyd yn barhaus. Cyhoeddir cylchlythyr mewnol misol hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff a chyfathrebir yn amlach yn ôl y gofyn.

# 8 | Adolygiad ariannol

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2014

### Dadansoddiad o Incwm a Gwariant yn ôl Swyddogaeth Reoleiddio

Mae'r cyfrifon yn dangos ein hincwm a'n gwariant mewn fformat cyfrifon safonol. Er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i randdeiliaid mae'r wybodaeth yn y tabl canlynol yn dangos incwm a gwariant yn ôl swyddogaeth Reoleiddio:

### Dadansoddiad o incwm a gwariant yn ôl swyddogaeth reoleiddio - 2014

| | 2014<br>£'000 | 2014<br>£'000 | 2013<br>£'000 | 2013<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Incwm | | | | |
| Cofrestru | 31,560 | | 30,980 | |
| Cofrestru Tramor | 1,565 | | 1,803 | |
| Incwm gweithredu arall | 15 | | 12 | |
| | | 33,140 | | 32,795 |
| Gwariant | | | | |
| Gweithgareddau rheoleiddio | | | | |
| Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau | 20,681 | | 16,157 | |
| Cofrestru | 2,118 | | 2,035 | |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 1,926 | | 2,154 | |
| Polisi a Rheoli Rhanddeiliaid | 1,584 | | 1,636 | |
| Llywodraethu | 1,782 | | 1,860 | |
| Rhagoriaeth Weithredol | 1,267 | | 1,230 | |
| Sicrhau Ansawdd | 1,021 | | 916 | |
| Y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 543 | | 566 | |
| | | 30,922 | | 26,554 |
| Gweithgareddau Cefnogi | | | | |
| Cyllid, AD a Phrif Swyddog Gweithredol | 4,035 | | 2,955 | |
| Gwasanaethau Llety a Swyddfa | 2,116 | | 1,840 | |
| Technoleg Gwybodaeth | 1,950 | | 1,690 | |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad | 941 | | 883 | |
| | | 9,042 | | 7,368 |
| Cyfanswm Gwariant | | 39,964 | | 33,922 |
| Incwm o Fuddsoddiadau | | 538 | | 555 |
| (Gwarged/(Diffyg) cyn treth | | (6,286) | | (572) |
| Treth | | (52) | | (156) |
| Gwarged/(Diffyg) a gadwyd ar ôl treth | | (6,338) | | (728) |

# 8 | Adolygiad ariannol

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2014

## parhad

Ariennir y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn bennaf gan ffioedd a delir gan ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gorfod cofrestru gyda'r Cyngor er mwyn ymarfer deintyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae gweithwyr deintyddol proffesiynol hefyd yn talu ffioedd er mwyn cadw eu henwau ar ein rhestri o arbenigwyr.

Yn 2014, roedd ymgyrch i wneud cymaint o gynnydd â phosibl gydag ôl-groniad o 750 o achosion addasrwydd i ymarfer.

Recriwtiwyd 20 aelod o staff ychwanegol i weithio'n benodol ar yr achosion hyn, ac roedd angen llety ychwanegol i'w cartrefu.

### Dadansoddiad o incwm:

Cynyddodd cyfanswm yr incwm gweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol i £33.1 miliwn (2013 - £32.8 miliwn). Roedd y cynnydd hwn oherwydd y rhesymau canlynol:-

- Ymunodd 576 o ddeintyddion a 2,346 o weithwyr gofal deintyddol proffesiynol ychwanegol â'r gofrestr yn 2014, gan gynhyrchu incwm o £0.5 miliwn.
- Cafwyd gostyngiad yn y nifer a oedd yn sefyll Rhan 2 o'r Arholiad Cofrestru Tramor o 7 yn 2013 i 6 yn 2014, a arweiniodd ar ostyngiad clir o £0.2 miliwn mewn incwm.

### Dadansoddiad o wariant:

Cynyddodd cyfanswm y gwariant i £39.9 miliwn yn 2014 (2013 - £33.9 miliwn), am y rhesymau canlynol:-

Cynyddodd costau Addasrwydd i Ymarfer a gwrandawiadau £4.5 miliwn i £20.7 miliwn (2013 - £16.2 mliwn oherwydd:

- Cynnydd o 4% yng nghyfanswm yr achosion newydd a dderbyniwyd yn 2014 o'i gymharu â 2013 ac arweiniodd y gweithwyr achos ychwanegol i reoli'r ôl-groniad o 750 o achosion at gynnydd o £1 miliwn.
- Cynnydd o £1.1 miliwn yn lefel yr adnoddau a ddefnyddiwyd yng nghyfnod ymchwilio'r broses Addasrwydd i Ymarfer, sy'n cynnwys ysgrifenyddion pwyllgorau ychwanegol i ymdrin â'r llwyth gwaith cynyddol.
- Cynnydd o £0.7 miliwn i dalu ein ffioedd am ddarparwyr cyfreithiol allanol a'n gwaith ymarfer anghyfreithlon mewnol.
- Arweiniodd cynnydd yn nifer y dyddiau gwrandawiadau o 1,066 yn 2013 i 1,246 yn 2014, law yn llaw â phob gwrandawiad yn cael eu cynnal mewn lleoliadau allanol, at gynnydd o £1.7 miliwn mewn gwariant.
- Cynyddodd costau cofrestru o £0.1 miliwn i £2.1 miliwn (2013 - £2.0 miliwn).
- Roedd costau Cyllid, Adnoddau Dynol a Swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredol £1.1 miliwn yn uwch (2013 - £2.9 miliwn), yn rhannol oherwydd cynnydd yng nghyfartaledd nifer gweithwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a oedd yn golygu bod angen cynnydd mewn gwariant ar recriwtio ac yn rhannol oherwydd y rhaglen newid sefydliadol.
- Cynyddodd y costau llety o £0.3 miliwn (2013 - £1.8 miliwn), o ganlyniad i rentu gofod swyddfa ar gyfer yr aelodau staff ychwanegol.
- Arweiniodd y cynnydd mewn costau TG (cyfarparu'r staff ychwanegol a recriwtiwyd gan y Cyngor, a chynnal safleoedd ychwanegol yn ystod y gwaith o ailddatblygu 37 Wimpole Street) a dibrisiant at gostau o £0.3 miliwn.
- Cafwyd gostyngiad yng nghostau Arholiadau Cofrestru Tramor o £0.2 miliwn i £1.9 miliwn (2013 - £2.1 miliwn), yn unol â'r gostyngiad mewn incwm.
- Cafwyd gostyngiad yng nghostau datblygu polisi a rheoli rhanddeiliaid o £0.1 miliwn.

Gydol 2014, parhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i weithredu mentrau i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae'r arbedion a gyflawnwyd yn 2014 yn cynrychioli arbedion o £3.8 miliwn, sef 9% o sail gost 2014, gan arwain at arbedion cronnus o tua £10.4 miliwn dros bedair blynedd. Trwy'r broses o nodi arbedion effeithlonrwydd , mae ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i sicrhau nad yw rhoi'r mesurau ar waith yn peryglu diogelwch y cyhoedd. Yn wir, mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r arbedion hynny i gyllido'r rhaglen i wella swyddogaeth Addasrwydd i Ymarfer.

Yn 2012, cwblhawyd trafodaethau â'r CThEM am statws treth aelodau ein pwyllgor, panelwyr ac arolygwyr. Cytunodd CThEM y dylid trin y mwyafrif fel hunangyflogedig at ddibenion treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol, ac nid yw'n ofynnol i'r Cyngor dynnu treth incwm neu fod yn atebol am gyfraniadau yswiriant gwladol ar eu ffioedd neu dreuliau. Gwnaed cais am ad-daliad o'r taliadau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y flwyddyn flaenorol ac am daliadau drwy ein Cytundeb Setliad y Cynllun Talu Wrth Ennill i CThEM. Fodd bynnag, rydym yn dal i aros am benderfyniad ynglŷn ag a fydd y cais yn cael ei gymeradwyo.

### Rhagolygon:

Wrth edrych ymlaen at 2015, mae ein rhagolygon diweddaraf yn rhagweld y byddwn yn mantoli'r cyfrifon. Mae'r rhagolygon yn rhagdybio y bydd nifer yr achosion Addasrwydd i Ymarfer yn sefydlogi yn 2015 ar ôl dwy flynedd o dwf sylweddol. Byddwn yn monitro llwyth achosion addasrwydd yn ofalus iawn i sicrhau ymateb cyflym, a byddwn yn defnyddio ein cronfeydd wrth gefn, os bydd nifer y cwynion yn cynyddu'n sylweddol.

Rydym yn wynebu'r sefyllfa lle mae'n annhebygol y bydd gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu symleiddio drwy newidiadau mewn deddfwriaeth tan o leiaf 2016/17, felly byddwn yn ceisio sicrhau'r arbedion mwyaf posibl o fewn y strwythurau cyfredol.

Bydd mesurau sydd wedi'u nodi a'u rhoi ar waith eisoes yn cyfrannu £4.4 miliwn yn 2015, a bydd mesurau newydd yn cynhyrchu arbedion ychwanegol o £1.7 miliwn, gan wneud cyfanswm o £16.5 miliwn dros bum mlynedd.

Byddwn yn parhau i sicrhau nad yw'r broses o nodi arbedion effeithlonrwydd yn peryglu diogelwch y cyhoedd.

Cymeradwyodd y Cyngor y broses o ailddatblygu 37 Wimpole Street ym mis Medi 2012 ac ar ôl cwblhau'r broses gaffael, cymeradwyodd y Cyngor wariant

ychwanegol o £8.0 miliwn ar gyfer y prosiect ym mis Medi 2014. Ym mis Ebrill 2015, cytunodd y Cyngor i sicrhau bod cronfeydd ar gael i dalu costau ychwanegol tebygol o hyd at £1.0 miliwn, er mwyn mynd i'r afael â chymhlethdodau a nodwyd yn ystod mis Mawrth 2015, a oedd yn ymwneud â chyfnod terfynol y gwaith ailddatblygu. Symudodd y prif gontractwr ar y safle ym mis Medi 2013, gyda mis Mehefin 2015 yn cael ei bennu fel dyddiad cwblhau'r contract.

### Cronfa Bensiwn:

Yn unol â'r safon adrodd ariannol ar gyfer costau pensiwn, IAS 19, prisiodd actwari'r cynllun pensiwn, Quantrum Advisory, y cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2014. Yn ôl eu dadansoddiad, cafwyd diffyg actiwaraidd net o £2,883,000 yng ngwerth cronfa'r cynllun yn 2014, yn erbyn yr hyn a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd.

Mae hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt, a arweiniodd at gynnydd yn y rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio. Yn y cyfamser, roedd taliadau i'r cynllun £179,000 yn fwy na thaliadau o'r cynllun a'r llog a dderbyniwyd. O ganlyniad, cafwyd gostyngiad cyffredinol o £2,704,000 yn y cynllun pensiwn, gan ostwng gwarged y pensiwn i £2,490,000 (2014) o £5,194,000 (2013)..

### Perygl hylifedd:

Cynyddodd balansau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i £31.9 miliwn, (2013 - £26.5 miliwn). Mae'r balansau hyn yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt yn Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst. Mae lefelau arian cyllido yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn gan fod derbynebau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fydd deintyddion yn talu eu ffioedd cadw blynyddol, ac ym mis Gorffennaf, pan fydd gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd nhw. Mae gwariant y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i rannu'n gyfartal gydol y flwyddyn.

Ym mis Mai 2012, penododd y Cyngor Smith & Williamson i fuddsoddi £12.0 miliwn o'r balansau arian sydd ar gael mewn cymysgedd o ecwitïau a gwarantau llog sefydlog. Mae gwarantau rhestredig ac ymddiriedolaethau unedol oedd ym meddiant y Cyngor bellach wedi'u trosglwyddo i reolaeth Smith & Williamson. Yn 2014, rhyddhaodd y Cyngor £6.1 miliwn o fuddsoddiadau er mwyn hybu'r balans ariannol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Ar ôl derbyn y ffioedd blynyddol ym mis Rhagfyr, rhoddwyd y £6.1 miliwn yn ôl i Smith & Williamson ym mis Ionawr 2015.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn fodlon nad yw'n agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol. Mae'r balansau nad oes angen eu defnyddio at ddibenion gweithredol tymor byr yn cael eu buddsoddi yn y farchnad arian am dymor o dri mis fel blaendal yn y farchnad arian, a chaiff hyn ei adolygu a'i adnewyddu ar ddiwedd pob tymor..

### Cronfeydd Wrth Gefn:

Adolygwyd a chytunwyd ar y polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn 2014. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- amcanion y Cyngor wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a rheoleiddio
- risg i incwm a gwariant y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- rhaglenni gwariant cyfalaf sylweddol arfaethedig

Wrth osod lefelau targed, roedd y Cyngor o'r farn bod cronfeydd wrth gefn o fewn ystod o bedwar i chwe mis o'r gwariant gweithredu blynyddol yn briodol. Mae'r ystod hwn yn amodol ar ystyriaeth flynyddol gan Bwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes y Cyngor pan fydd yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo cyllideb y flwyddyn ganlynol.

### Archwilwyr Allanol:

Mae'r cyfrifon wedi'u harchwilio gan ein harchwilwyr, haysmacintyre o 26 Red Lion Square, Llundain WC1R 4AG ac yn unol â Deddf Deintyddion 1984 gan y Comptroller and Auditor General, Amyas C E Morse, National Audit Office, 157-191 Buckingham Palace Road, Victoria, Llundain SW1W 9SP. Mae adroddiad yr archwilydd annibynnol i'w weld ar dudalen 46 o'r adroddiad hwn, ac mae tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 47.

### Datgelu gwybodaeth archwilio i'r archwilwyr:

Cyn belled ag y gwyddom ni, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymwybodol ohoni.

Rydym wedi cymryd pob cam posibl i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

William Moyes
Cadeirydd
17 Mehefin 2015

Evlynne Gilvarry
Prif Weithredwr
a Chofrestrydd
17 Mehefin 2015

# 9 | Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr

Dan Ddeddf Deintyddion 1984 mae'n ofynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ogystal â'i incwm a'i wariant, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu wneud y canlynol:

- Rhoi sylw i'r Dyfarniadau Cyfrifon a gyhoeddir gan y Cyfrin Gyngor, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a rhoi polisïau cyfrifyddu addas ar waith yn gyson
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- Nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y Dyfarniadau Cyfrifon, wedi'u dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol gwneud hynny.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol i'r Cyngor am briodoldeb a rheoleidd-dra ei gyllid, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi ystyried y gofynion uchod ac o'r farn lle bônt yn berthnasol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y cydymffurfiwyd â hwy dan bob amgylchiad materol, gydag unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu sy'n dilyn.

# 10 | Datganiad llywodraethu

### Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol am gynnal trefniadau llywodraethu a sicrhau bod system reoli fewnol gadarn ar waith sy'n cefnogi polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn diogelu asedau'r sefydliad. Y Cyfrin Gyngor sy'n penodi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Wrth wneud fy asesiad, rwyf wedi dibynnu ar adroddiadau a thrafodaethau ag archwilwyr mewnol a gwaith monitro parhaus ar ein cofrestri risg.

Mae'r system reoli fewnol a ddefnyddir ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i chynllunio i reoli risgiau, gan gydnabod nad yw hi'n bosibl cael gwared ar bob risg yn llwyr. Wrth weithio gyda Chyfarwyddwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Cyngor, cynhelir asesiad llawn o risg strategol a'i gofnodi ar y gofrestr risg strategol. Bydd gwaith i wella'r broses o nodi, monitro a sicrhau y bydd risg strategol yn cael ei liniaru yn arwain at gyflwyno Fframwaith Rheoli Risg newydd yn 2015. Bydd y Fframwaith, sydd hefyd yn darparu gwell canllawiau i'r holl staff, yn disodli ein Polisi Rheoli Risg sy'n dyddio yn ôl i 2012.

### Trefniadau llywodraethu

Mae'r Cyngor yn cynnwys 12 aelod – 6 gweithiwr deintyddol proffesiynol a 6 aelod lleyg, gan gynnwys y Cadeirydd.

Mae'r Cyngor wedi arwain newidiadau yn y sefydliad i ddarparu sefydliad mwy effeithlon, effeithiol a thryloyw. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cynhyrchu Cerdyn Sgorio Cytbwys, gweithio i ddatblygu Strategaeth Gorfforaethol newydd, sy'n rhoi cleifion yn ganolog ym mhopeth a wnawn, a lansio rhaglen newid sefydliadol sydd â'r nod o wella perfformiad y sefydliad ar draws pob swyddogaeth.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau craidd yn effeithlon ac mewn ffyrdd sy'n sicrhau diogelwch cleifion. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu strategaeth a chyfeiriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a sicrhau bod pob penderfyniad pwysig yn cyd-fynd â'r strategaeth, gan wneud penderfyniadau pwysig ar bolisi a sicrhau a monitro rheolaeth ariannol effeithiol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am:

- bennu awydd y sefydliad i fentro;
- sicrhau bod yna system rheoli risg, gyda gweithdrefnau a mesurau rheoli mewnol effeithiol;
- cymeradwyo'r polisi rheoli risg;
- nodi a chynghori ar risgiau allweddol;
- craffu ar y gwaith o reoli risgiau strategol;
- dal y Weithrediaeth i gyfrif am reoli risg.

### Trosolwg y Cyngor o risgiau strategol

Mae'r Cyngor yn monitro risg strategol allweddol yn barhaus, gan adolygu'r Gofrestr Risgiau Strategol ym mhob cyfarfod.

Mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad perfformiad chwarterol hefyd, sydd ar ffurf Cerdyn Sgorio Cytbwys bellach.

Mae'r Cerdyn Sgorio Cytbwys yn canolbwyntio ar bedwar prif faes perfformio, sef:

- Safbwynt ariannol – i roi arwydd o werth am arian;
- Safbwynt gwasanaeth cwsmeriaid - i ddangos safon y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i randdeiliaid allanol;
- Safbwynt proses fusnes mewnol – i ddangos pa mor dda y mae prosesau'n cael eu rheoli;
- Safbwynt adnoddau dynol – i bennu a oes adnoddau digonol i wneud gwaith y sefydliad.

Mae cynnwys y dogfennau hyn yn darparu gwybodaeth reoli sy'n gynyddol ddefnyddiol i'r Cyngor i lywio'i waith o wneud penderfyniadau, monitro cynnydd yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a dwyn y Weithrediaeth i gyfrif am ei pherfformiad. Mae pob papur sy'n galw am benderfyniad gan y Cyngor yn nodi'n benodol y risgiau strategol perthnasol er mwyn i'r Cyngor allu eu hystyried wrth ddod i benderfyniad.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i ddatblygu system arfarnu newydd ar gyfer aelodau a bydd yn cynnal adolygiad o'i berfformiad a'i effeithlonrwydd. Bydd canfyddiadau'r adolygiad strwythuredig hwn yn llywio cyfres o amcanion allweddol ar gyfer y Cyngor er mwyn iddo adolygu ei gynnydd yn barhaus yn eu herbyn. Bydd y rhain yn cael eu hymgorffori yn y system arfarnu aelodau newydd hefyd.

Caiff presenoldeb aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfodydd sydd i'w cael ar wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae tabl o bresenoldeb aelodau yn adran 5 yr adroddiad hwn.

Gan nad yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i ddosbarthu fel Corff Hyd Braich, nid oes rhaid i ni gydymffurfio â'r Corporate governance in central government departments: 'Code of practice 2011'.

Fodd bynnag, rydym yn ystyried yr egwyddorion da a nodir yn y ddogfen ar gyfer datblygu ac adroddiadau ar ein trefniadau llywodraethu.

### Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am roi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â chywirdeb datganiadau ariannol, trefniadau llywodraethu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, systemau rheoli mewnol a rheoli risg ac effeithiolrwydd y systemau archwilio mewnol ac allanol, yn cynnwys a gyflawnwyd y camau gweithredu a nodwyd mewn adroddiadau archwilio.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am:

- roi sicrwydd i'r Cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg;
- cael sicrwydd am drefniadau rheoli risg gan archwilwyr mewnol.
- adolygu statws a thueddiadau pob risg yn y gofrestr risgiau strategol.

# 10 | Datganiad llywodraethu

## parhad

### Tîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan staff y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, dan arweinyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu ac aelodau eraill y Tîm Rheoli Gweithredol. Mae aelodau'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gweithredu fel cyfarwyddwyr Gweithredol y Cyngor. Maent yn rhannu cyfrifoldeb am gamau gweithredu a phenderfyniadau a wneir, waeth beth fo'u cyfrifoldebau llinell unigol. Newidiwyd y tîm staff yn 2014. Ym mis Medi, penderfynwyd rhannu'r gyfarwyddiaeth reoleiddio yn ddwy gyfarwyddiaeth ar wahân: un i reoli Cofrestru (gan gynnwys Rhagoriaeth Weithredol) ac un i reoli Addasrwydd i Ymarfer. Cynhaliwyd y rhaniad ffurfiol ym mis Rhagfyr 2014.

Dyma'r cyfarwyddiaethau eraill: Polisi a Chyfathrebu, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Adnoddau Dynol, a Llywodraethu.

Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gyfrifol am:

- nodi'r risgiau strategol a sicrhau bod perchnogaeth am bob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel gywir gydag atebolrwydd clir;
- nodi a gwerthuso risgiau wrth iddynt ddigwydd o fewn adrannau a chyfarwyddiaethau;
- adolygu ac adrodd ar risgiau i'r Cyngor ac agweddau eraill ar y model llywodraethu;
- adrodd i'r Cyngor ar reoli risgiau'n effeithiol fel y maent yn berthnasol i ddatblygu polisi, perfformiad gweithredol a defnyddio adnoddau;
- cynllunio a gweithredu'r polisi rheoli risg a sicrhau arferion rheoli risg da;
- sicrhau bod y cofrestri risgiau strategol, gweithredu a phrosiect yn gyfredol, perthnasol a chynhwysfawr.

Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn cyfarfod bob pythefnos ac yn trafod risgiau corfforaethol ym mhob cyfarfod.

Mae'r gofrestr risgiau strategol yn llywio penderfyniadau'r Cyngor a'r Weithrediaeth. Caiff ei hadolygu gan y Weithrediaeth yn barhaus ac mae'n eitem sefydlog ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd cofrestr risgiau strategol ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i adlewyrchu'r Strategaeth Gorfforaethol newydd a fydd yn cael ei chymeradwyo ym mis Mehefin 2015.

Mae'r gofrestr risgiau strategol yn seiliedig ar gofrestri risgiau gweithredol sy'n ymwneud â holl weithrediadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Caiff y rhain eu cynnal gan dîm o Reolwyr Risgiau ledled y sefydliad. Caiff rhwydwaith y Rheolwyr Risg ei gydlynu er mwyn sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng y cofrestri risgiau strategol a gweithredol a bod lefel eu difrifoldeb yn cael ei throsglwyddo i lefel uwch lle bo angen.

Ceir rhagor o gefnogaeth wrth adolygu risg strategol drwy adroddiadau archwiliadau a gwblheir gan ein harchwilwyr mewnol. Mae hyn yn rhoi ffynhonnell sicrwydd annibynnol sy'n ein helpu i nodi camau a fydd yn gwella'r gwaith o liniaru'r risg. Darparodd ein harchwilwyr mewnol hyfforddiant rheoli risg yn ystod y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg.

### Datgelu'r prif risgiau ac ansicrwydd

Bob blwyddyn, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gweithredu argymhellion ar gyfer gwella a nodwyd drwy waith craffu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol. Yn 2014, gwnaed newidiadau i'n proses Addasrwydd i Ymarfer er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i liniaru risgiau i ddiogelwch cleifion. Rydym wedi gwella ansawdd ein gwasanaeth cwsmeriaid, ein cywirdeb, ein dull o wneud penderfyniadau a'n prydlondeb yn sylweddol drwy reoli perfformiad yn fwy cadarn. Rydym hefyd yn parhau i weithio i sicrhau bod gwybodaeth gywir a chyfoes ar gael er ein cofrestr ar-lein o weithwyr deintyddol proffesiynol. Rydym wedi ymroi'n llwyr i ddal ati i wella ein ffordd o weithio.

Rhwng mis Mehefin a mis Medi 2014, ymgynghorwyd ar gynigion i godi lefel y Ffi Gadw Flynyddol ar gyfer gweithwyr deintyddol proffesiynol. Ffioedd gan weithwyr deintyddol proffesiynol yw prif ffynhonnell incwm y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Cyn yr ymgynghoriad ar lefel y ffi, ymgynghorwyd ar yr egwyddorion y byddem yn seilio'r ffi arnynt. Derbyniwyd adborth gwerthfawr iawn o'r ddau ymgynghoriad a chyhoeddwyd ymateb ffurfiol yn mynd i'r afael â'r prif bryderon y tynnwyd sylw atynt.

Ym mis Rhagfyr 2014, lansiodd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain her gyfreithiol i benderfyniad y Cyngor i godi'r Ffi Gadw Flynyddol[3]. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cydnabod yn llawn benderfyniad y llys a benderfynodd fod yr ymgynghoriad yn wallus gan ei fod wedi methu darparu gwybodaeth ddigonol a'i fod felly'n anghyfreithlon. Fodd bynnag, rydym yn falch bod y barnwr wedi penderfynu peidio â dileu'r penderfyniad, gan gydnabod bod yn rhaid cyllido'r Cyngor yn iawn os yw i gyflawni ei ddyletswyddau i ddiogelu'r cyhoedd. Drwy'r ymgynghoriad ar y Ffi Gadw Flynyddol, mae'r Cyngor wedi ceisio bod mor dryloyw â phosibl a nododd yr Ustus Cranston hyn yn ei ddyfarniad.

Cynyddwyd y Ffi Gadw Flynyddol ar gyfer deintyddion o £576 i £890 a gostyngwyd y ffi ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol cyffredinol o £120 i £116. Roedd hyn yn sgil cymhwyso polisi'r Ffi Gadw Flynyddol sy'n cysylltu lefel y ffi yn fwy trylwyr â chost rheoleiddio pob grŵp o weithwyr deintyddol proffesiynol.

Ym mis Rhagfyr 2014, cymeradwyodd y Cyngor raglen newid sefydliadol 12 mis oedd â'r nod o sicrhau bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn sefydliad a oedd yn perfformio'n dda. Mae'r cynllun yn nodi blaenoriaethau

allweddol i'w cyflawni, gan gynnwys arweinyddiaeth effeithiol a rheoli perfformiad; swyddogaeth gyfathrebu effeithiol; systemau a phrosesau cadarn sy'n hyrwyddo effeithlonrwydd ac sy'n lliniaru risgiau'n effeithiol; a strwythur sefydliadol addas i'w ddiben. Mae'r cynllun newid sefydliadol yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni o dan bob adran ac mae tystiolaeth o hyn wedi, ac yn parhau i gael ei monitro'n agos a'i hadrodd i'r Cyngor yn rheolaidd.

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn ymchwilio i faterion penodol y cyfeiriwyd atynt gan chwythwr chwiban. Mae'r materion yr ymchwilir iddynt yn cynnwys:

1.Y ffordd y mae Pwyllgor/au Ymchwilio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn:

a) rheoli'r prosesau a'r gefnogaeth i Bwyllgor/au Ymchwilio'r Cyngor sy'n ôl-ddyddio cyhoeddiad adroddiad Ymchwiliad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol 'An investigation into concerns raised by the former Chair of the General Dental Council (Chwefror 2013)'

b) ymateb i'r argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, sef adolygu'r prosesau a'r gefnogaeth sydd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar waith ar gyfer ei Bwyllgor/au Ymchwilio, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer casglu a monitro'r adborth a dderbynnir.

2.Digonolrwydd polisi chwythu'r chwiban y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r ffordd y rhoddir y polisi hwn ar waith, fel y gwelwyd yn:

a) ymateb y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ddatgeliad gan chwythwr chwiban am y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli a chefnogi'r Pwyllgor Ymchwilio

b) y ffordd y rheolodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gŵyn gan y chwythwr chwiban am driniaeth anffafriol oherwydd ei ddatgeliad

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar gynnydd yn yr ymchwiliad hwn a bydd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn darparu ei adroddiad i'r Pwyllgor Dethol ar Iechyd a'i gyhoeddi ar eu gwefan maes o law.

### Achosion o dorri rheolau data a diogelwch gwybodaeth

Yn 2014, nodwyd 27 achos o dorri rheolau data, a oedd yn gynnydd o'r 21 achos yn 2013. Mân achosion oedd y rhan fwyaf ohonynt a rhoddwyd gwybod i'r partïon perthnasol a'u datrys yn gyflym.

Credwn fod ymwybyddiaeth gorfforaethol gynyddol o faterion diogelwch gwybodaeth wedi arwain at roi gwybod am achosion o'r fath a'u cofnodi'n gyflym gyda hynny'n golygu y gallwn liniaru unrhyw niwed yn fwy effeithlon. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn parhau'n ymrwymedig i ddysgu'r gwersi sy'n codi o'r achosion hyn, gan gyflwyno gwelliannau gweithredol a gweithredu gwell systemau diogelwch a hyfforddiant i leihau'r risg yn y maes hwn. Yn 2014, cyflwynodd y Cyngor hyfforddiant sefydlu Diogelwch Gwybodaeth ar gyfer ei holl staff newydd a derbyniodd 150 o unigolion hyfforddiant yn 2014.

Mae'r sesiynau ymsefydlu'n pwysleisio pwysigrwydd y wybodaeth, a'r data personol (sensitif) yn enwedig, y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ei dal a'i phrosesu. Mae'n egluro'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, rôl Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, peryglon wrth drafod data a beth ddylid ei wneud os oes amheuaeth bod rheolau data wedi eu torri neu fod hynny wedi digwydd. Darperir cynghorion ymarferol ar sut i osgoi torri rheolau data a chyfeirir staff at y polisïau Diogelwch Gwybodaeth (diwygiwyd rhwng Rhagfyr 2013 ac Ebrill 2014). Cyflwynwyd canllawiau newydd ar dorri rheolau data a chawsant eu hyrwyddo ymhlith staff ym mis Ebrill 2014. Mae hyfforddiant ychwanegol wedi'i ddarparu hefyd i dimau unigol drwy'r sefydliad.

Ar ddiwedd 2014, lansiodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol system ddiogel newydd gorfforaethol o rannu ffeiliau a fydd yn galluogi i ddefnyddwyr y Cyngor anfon neu dderbyn ffeiliau mawr yn ddiogel gyda phartïon allanol. Bydd y system yn cael ei defnyddio i rannu ffeiliau'n ddiogel a hawdd a bydd yn fuddiol iawn wrth rannu data mawr neu hynod o sensitif yn allanol.

### Ymchwiliadau ffurfiol

Fel yr adroddwyd yn flaenorol yn 2013, roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymateb i gŵyn ffurfiol a oedd yn cael ei hystyried gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y ffordd y gwnaethom ymdrin â chais Rhyddid Gwybodaeth. Bu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystyried y mater mewn dwy ran, a oedd y Cyngor wedi dehongli cwmpas y cais yn gywir, gan ddod i'r casgliad ein bod wedi, ac yn ail a oedd y wybodaeth wedi'i hymatal yn gywir, gan benderfynu o blaid y Cyngor eto. Parhawyd i ystyried y materion hyn yn 2014 ac mae hysbysiadau o'r ddau benderfyniad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth a mis Medi 2014, ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### Hunan-adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Yn 2014, cyflwynodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol dri hunanadroddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae dau o'r rhain ar waith o hyd. Ar ôl cyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar 27 Mehefin 2014, anfonwyd dolen i'r adroddiad ac ymateb y Cyngor at swyddogion cyswllt y Cyngor (aelodau panel Addasrwydd i Ymarfer, Arolygwyr Sicrhau Ansawdd ac aelodau panel y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol) ar neges e-bost yr un diwrnod.

# 10 | Datganiad llywodraethu

## parhad

Yn yr achos cyntaf, roedd enw a manylion cyswllt pob derbynnydd i'w weld i bob derbynnydd arall. Roedd yr holl swyddogion cyswllt yr effeithiwyd arnynt bron iawn yn defnyddio e-bost personol (neu broffesiynol arall) yn hytrach nag e-bost y Cyngor, felly datgelwyd cyfeiriadau cyswllt personol. Hunanadroddwyd y mater i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a gaeodd yr achos, gan gadarnhau nad oedd angen cymryd camau pellach.

Yn yr ail achos, roedd gwybodaeth wedi'i hanfon at drydydd parti nad oedd yn gysylltiedig ac yn y trydydd achos, roedd un set o gofnodion claf wedi'u colli yn fewnol.

### Rhyddid Gwybodaeth

Bu oedi yn y gwaith o integreiddio ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth i mewn i system rheoli achosion y Cyngor a nodwyd y gwaith hwn fel blaenoriaeth fusnes yn 2014. Mae'r prosiect wedi llwyddo yn y cyfnodau profi a bydd yn cael ei roi ar waith yn 2015. Fel y nodwyd uchod, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o Ryddid Gwybodaeth a diogelu data wedi parhau yn 2014. Darparwyd dosbarthiadau meistr ar Ryddid Gwybodaeth ac ar y Ddeddf Diogelu Data ar gyfer yr holl weithwyr achos Addasrwydd i Ymarfer a staff cymorth yn 2014. Mae gwybodaeth mewn perthynas â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth yn parhau i gael ei chasglu o gronfa ddata Rhyddid Gwybodaeth, a fydd yn cael ei hintegreiddio i'r system CRM maes o law.

Mae diweddariadau blynyddol yn parhau i gael eu darparu i'r Cyngor ac yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn 2014, cofnodwyd 554 o geisiadau am wybodaeth, (415 yn 2013), 479 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (316 yn 2013) a 75 o geisiadau gwrthrych am wybodaeth (99 yn 2013).

### Hyfforddiant

Yn ogystal ag ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff ehangach, darperir hyfforddiant ac arweiniad cefndir i'r holl gynrychiolwyr Rhyddid Gwybodaeth newydd. Rhoddwyd hyfforddiant i aelodau'r Cyngor newydd ar rwymedigaethau'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth, fel rhan o'r hyfforddiant ymsefydlu. Rhoddwyd hyfforddiant i aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer mewn perthynas â materion diogelwch gwybodaeth.

### Gwaith archwilio mewnol

Mae gennym raglen flynyddol o archwiliadau mewnol a gynhelir gan Grant Thornton. Mae'r cynllun archwilio'n cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio ac mae adroddiadau'r archwilwyr yn graddio'r swyddogaeth benodol ar raddfa benodedig.

Mae'r canfyddiadau yn 2014 yn dangos gwelliannau amrywiol, o rai achosion sydd wedi'u graddio'n 'sicrwydd cyfyngedig' i'r rhai wedi'u graddio'n 'sicrwydd sylweddol'. Mae pob archwiliad yn gwneud argymhellion ar gyfer camau i'w cymryd a'r adroddiadau rheoli ar eu hymatebion a'r dyddiad ar gyfer eu cwblhau. Yn ystod 2014, adolygodd Grant Thornton 34 o argymhellion o 8 archwiliad yr adroddwyd arnynt rhwng mis Hydref 2012 a mis Chwefror 2014. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod 90% o'r argymhellion a adolygwyd wedi'u rhoi ar waith yn llawn, o gymharu â'r 78% a roddwyd ar waith yn adolygiad 2013.

### Gwybodaeth reoli

Ers mis Hydref 2013, rydym wedi bod yn gwella'r perfformiad a'r wybodaeth ariannol sydd ar gael gennym i'r Cyhoedd, er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau sy'n cael eu llunio mor bwrpasol â phosibl. Ym mis Ionawr 2014, bu'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformio yn ystyried y fersiwn gyntaf o gerdyn sgorio cytbwys newydd ar gyfer adrodd ar berfformiad. Roedd y cyfnod cychwynnol hwn yn canolbwyntio ar yr adran Addasrwydd i Ymarfer. Ym mis Gorffennaf 2014, cymeradwyodd y Cyngor y fframwaith a argymhellwyd ar gyfer ymestyn y model cerdyn sgorio drwy'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, amlder yr adrodd a'r amserlen ar gyfer datblygu pellach.

Cafwyd cynnydd ar ddatblygu Warws Data Gwybodaeth Reoli. Mae'r Warws yn casglu data Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestru byw y gellir ei ddefnyddio i lunio adroddiadau cyson a dadansoddiadau rheolaidd.

Yn 2014, dechreuwyd ar y gwaith o osod y sylfeini ar gyfer strategaeth gorfforaethol newydd, ac yn ogystal â chytuno ar Gynllun Busnes newydd ar gyfer 2015 a fydd yn cynnwys y cyd-destun a'r gweithgareddau allweddol i'w cyflawni gydol y flwyddyn, cyflwynwyd Cynllun Gweithredol newydd i helpu'r Tîm Rheoli Gweithredol i fonitro darpariaeth lwyddiannus yr holl weithgarwch. Mae'r Cynllun Gweithredol, gyda cherrig milltir a risg gysylltiedig, yn mynd law yn llaw â'r Cerdyn Sgorio Cytbwys newydd a chofrestri risg fel y gellir darparu adroddiadau cynhwysfawr i'r Tîm Rheoli Gweithredol ac i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformio.

[3] Penderfynodd yr Ustus Cranston fod camgymeriad trefniadol wedi bod yn ymgynghoriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar lefel y Ffi Gadw Flynyddol. Yn ei grynodeb, dywedodd yr Ustus Cranston ei fod yn cydnabod bod yn rhaid cyllido'r Cyngor yn briodol er mwyn iddo allu cyflawni ei ddyletswyddau ac nad oedd y camgymeriad yn un digon difrifol fel bod angen iddo ddileu'r ymgynghoriad a'r ffi newydd. Fodd bynnag, nododd y gallai'r Cyngor fod wedi darparu rhagor o wybodaeth fel rhan o'r ymgynghoriad.

**Prifysgol Caerdydd, Dyfarniad Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol 2012-2014**

Bu'r Cyngor Deintyddol Proffesiynol a Phrifysgol Caerdydd, ar ôl nodi problem dechnegol gyda dyfarnu cymwysterau Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol i raddedigion yng Nghaerdydd rhwng 2010 a 2014, yn cydweithio yn ystod hanner cyntaf 2015 i gywiro'r gwall gyda chymwysterau unigolion a gofrestrwyd. Os oedd y graddedigion yr effeithiwyd arnynt ar y gofrestr, sicrhaodd y Cyngor y byddai eu cofrestriad gyda'r Cyngor yn un parhaus.

Deilliodd y broblem dechnegol o statws cyfreithiol Prifysgol Caerdydd pan ddyfarnwyd y cymwysterau. Mae'n rhaid i holl gyrff dyfarnu Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol fod â'r statws cyfreithiol o awdurdod meddygol at ddibenion Deddf Deintyddion 1984 er mwyn gallu cofrestru eu dyfarniadau o gymwysterau Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol dan Ddeddf Deintyddion 1984. Nid oedd gan Brifysgol Caerdydd y statws gofynnol tan fis Gorffennaf 2014 – ar ôl dyddiadau dyfarniadau 2010-2014 yr oedd cofrestriadau oddeutu 300 o raddedigion yn seiliedig arnynt.

Yn sgil hynny, er nad oedd bai arnynt o gwbl, roedd cofnodion unigolion ar y gofrestr deintyddion yn wallus. Mae'n bwysig nodi nad oedd unrhyw amheuaeth am ddilysrwydd academaidd y cymhwyster, nac unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion.

Cytunodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Phrifysgol Caerdydd, gyda chymorth yr Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru, i bennu mesurau i reoleiddio'r sefyllfa heb doriad mewn cofrestru. Gwnaethpwyd hyn gyda chyn lleied o darfu â phosibl i'r graddedigion a dim tarfu o gwbl i'w cleifion.

Roedd y mesurau hyn yn cynnwys Prifysgol Caerdydd yn rhoi dyfarniad Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol newydd i'r graddedigion yr effeithiwyd arnynt ar 1 Mai 2015. Yna, roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gallu tynnu enwau'r unigolion yr effeithiwyd arnynt oddi ar y gofrestr deintyddion, cyn eu gosod yn ôl ar y gofrestr yn syth ar sail y dyfarniad newydd.

Nid yw dyddiad cofrestru cyntaf yr unigolion wedi newid.

Evlynne Gilvarry
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# 11 | Cyfrifon

# 12 | Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 sy'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig 1 i 24.

Wrth baratoi'r cyfrifon, defnyddiwyd fframwaith adrodd ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Adroddiad i Aelodau'r Cyngor, fel corff, yn unig yw hwn, yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddir yn unol â hynny gan y Cyfrin Gyngor. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud fel y gallwn hysbysu Aelodau'r Cyngor am y materion hynny sy'n ofynnol i ni hysbysu amdanynt mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall.

Hyd y caniateir hynny gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am yr adroddiad hwn, nac am y farn sydd gennym, i unrhyw un heblaw'r Cyngor ac aelodau'r Cyngor fel corff.

### Cyfrifoldebau unigol y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a mynegi barn ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditscopeukprivate.

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2014 ac o'i ddiffyg ariannol ar ddiwedd y flwyddyn honno;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf gan y Cyfrin Gyngor.

haysmacintyre
Archwilydd Statudol
26 Red Lion Square
Llundain
WC1R 4AG

17 Mehefin 2015

Mae haysmacintyre yn gymwys i weithredu fel archwilwyr o ran adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

# 13 | Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

### Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 o dan Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad o'r Llif Arian, Datganiad o Newidiadau i'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Dâl a gafodd ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

### Cyfrifoldebau unigol y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn fwy trylwyr yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i Brif Weithredwr, y Cyngor a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, cadarnhau ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Deintyddion 1984. Bu i mi gynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i'm staff a minnau gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn ymwneud â chael gafael ar dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys datganiadau sy'n sylweddol anghywir, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenais yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar, neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth i mi gwblhau'r archwiliad hwn. Os dof yn ymwybodol o unrhyw ddatganiadau anghywir neu anghysondebau sylweddol ymddangosiadol, rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Rhaid i mi gael gafael ar ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a nodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion y bwriadwyd hwy ar eu cyfer gan Senedd San Steffan a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob modd sylweddol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso yn unol â'r dibenion y bwriadodd Senedd San Steffan hwy, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2014 ac o'r diffyg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yr adeg honno;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a chyfarwyddiadau perthnasol y Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan y ddeddf.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deintyddion 1984;
- mae'r wybodaeth a roddir yn adrannau Adolygiad Ariannol ac Adroddiad Cyfrifoldeb Cymdeithasol, Strwythur y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion yr wyf yn adrodd yn eu cylch trwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol yr adroddaf i chi amdanynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu nad oes mantolenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn o ganghennau na chafodd ymweliad gan fy staff;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Dâl i'w harchwilio yn cyfateb i'r cofnodion cyfrifyddu a'r mantolenni;
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse - Dyddiad**
**Comptroller and Auditor General**

National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# 14 | Cyfrif incwm a gwariant

## Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2014

| | Note | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Ffioedd | 2 | 31,560 | 30,980 |
| Arholiadau Cofrestru Tramor | 3 | 1,565 | 1,803 |
| Amrywiol | 3 | 15 | 12 |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **33,140** | **32,795** |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 5 | 16,441 | 13,281 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 6 | 10,552 | 9,778 |
| Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgorau | 7 | 8,232 | 6,514 |
| Gweinyddiaeth | 8 | 3,531 | 2,935 |
| Llety | 9 | 674 | 741 |
| Cyfathrebu a Chyhoeddiadau | 10 | 534 | 673 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **39,964** | **33,922** |
| **(Diffyg) ar ôl gwariant gweithredu** | | **(6,824)** | **(1,127)** |
| Incwm buddsoddiadau | 4 | 508 | 555 |
| Enillion a wireddwyd o werthu buddsoddiadau | 14 | 30 | |
| **(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn ar ôl incwm buddsoddiadau ac addasu** | | **(6,286)** | **(572)** |
| Treth | 11 | (52) | (156) |
| **(Diffyg) a gadwyd ar ôl treth** | | **(6,338)** | **(728)** |
| **Incwm cyffredinol arall /(gwariant)** | | | |
| Enillion ar fuddsoddiadau nas gwireddwyd | 14 | 333 | 260 |
| (Colledion)/Enillion actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn | 19 | (2,883) | 2,025 |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm cyffredinol arall am y flwyddyn** | | **(2,550)** | **2,285** |
| **Cyfanswm (gwariant)/incwm cyffredinol am y flwyddyn** | | **(8,888)** | **1,557** |

Mae pob incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus

# 15 | Datganiad o'r sefyllfa ariannol

## Ar 31 Rhagfyr 2014

| Nodyn | £'000 | 31 Rhag 2014 £'000 | 31 Rhag 2013 |
|---|---|---|---|
| Asedau anghyfredol: | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 12 | 6,910 | 3,030 |
| Asedau anghyffyrddadwy | 13 | 995 | 1,176 |
| Asedau ariannol – asedau ar gael i'w gwerthu | 14 | 8,829 | 13,264 |
| Darpariaeth ar gyfer asedau pensiwn | 19 | 2,490 | 5,194 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **19,224** | **22,664** |
| Asedau cyfredol: | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15 | 1,771 | 641 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 16 | 31,863 | 26,454 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **33,634** | **27,095** |
| **Cyfanswm asedau** | | **52,858** | **49,759** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 17 | 4,616 | 4,876 |
| Rhwymedigaethau eraill | 17 | 11 | 11 |
| Incwm gohiriedig | 17 | 35,180 | 22,988 |
| Treth Gorfforaeth | 17 | 120 | 18 |
| **Cyfanswm o rwymedigaethau cyfredol** | | **39,927** | **27,893** |
| **Asedau anghyfredol plws/llai asedau/rhwymedigaethau** | | **12,931** | **21,866** |
| Rhwymedigaethau anghyfredol: | | | |
| Darpariaethau | 18 | 135 | 135 |
| Symiau taladwy eraill | 17 | 23 | 34 |
| Treth ohiriedig | 17 | 218 | 254 |
| **Cyfanswm o rwymedigaethau** | | **376** | **423** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **12,555** | **21,443** |
| Cronfeydd wrth gefn | | | |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | | 8,638 | 15,155 |
| Cronfa Bensiwn wrth gefn | | 2,490 | 5,194 |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau wrth gefn | | 1,427 | 1,094 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **12,555** | **21,443** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Aelodau'r Cyngor ac fe'u llofnodwyd ar eu rhan ar 17 Mehefin 2014 gan:

William Moyes
Cadeirydd

Evlynne Gilvarry
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# 16 | Datganiad llif arian

## Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2014

| | Nodyn | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| (Diffyg)/gwarged o weithgareddau gweithredu | I&E | (6,824) | (1,127) |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | | 899 | 827 |
| Colled ar waredu eiddo, offer a chyfarpar | | 43 | 56 |
| Lleihad/(cynnydd) mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15 | (1,130) | 69 |
| Cynnydd/(lleihad) mewn symiau taladwy masnach a rhwymedigaethau eraill | 17 | 11,921 | 1,681 |
| Symudiadau ariannu'r gronfa bensiynau wrth gefn | 19 | (179) | (58) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 18 | - | (83) |
| Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu | | 4,730 | 1,365 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 12 | (4,381) | (963) |
| Prynu asedau anghyffyrddadwy | 13 | (266) | (328) |
| Enillion o werthu asedau | | 6 | 1 |
| Enillion o werthu asedau ariannol | 14 | 6,096 | 204 |
| Prynu asedau ariannol | 14 | (1,298) | (212) |
| Incwm buddsoddi | 4 | 508 | 555 |
| Arian Net mewnlif/(all-lif) o weithgareddau buddsoddi | | 665 | (743) |
| Treth | | 14 | (19) |
| Cynnydd net mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod | | 5,409 | 603 |
| Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 16 | 26,454 | 25,851 |
| Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 16 | 31,863 | 26,454 |
| Cynnydd net mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | | 5,409 | 603 |

# 17 | Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn

## Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2014

| | | 2014 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn | Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | Enillion heb eu gwireddu ar y Gronfa Fuddsoddiadau Wrth Gefn | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 31 Rhagfyr 2012 | | 15,941 | 3,111 | 834 | 19,886 |
| Newidiadau i gronfeydd wrth gefn yn 2013 | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | I&E | (728) | - | - | (728) |
| Enillion actiwaraidd ar gynllun pensiwn | 19 | | 2,025 | - | 2,025 |
| Trosglwyddiadau wrth gefn | | (58) | 58 | | - |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 14 | | | 260 | 260 |
| | | (786) | 2,083 | 260 | 1,557 |
| Balans ar 31 Rhagfyr 2013 | | 15,155 | 5,194 | 1,094 | 21,443 |
| Newidiadau i gronfeydd wrth gefn 2014 | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | I&E | (6,338) | - | - | (6,338) |
| Newid i'r gronfa bensiwn wrth gefn | 19 | | (2,883) | - | (2,883) |
| Trosglwyddiadau wrth gefn | | (179) | 179 | - | - |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 14 | | | 333 | 333 |
| | | (6,517) | (2,704) | 333 | (8,888) |
| Balans ar 31 Rhagfyr 2014 | | 8,638 | 2,490 | 1,427 | 12,555 |

# 18 | Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol ac o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i diwygiwyd ar ôl cynnwys buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad, yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE a chan ystyried egwyddorion a datgeliadau cyfrifyddu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u rhoi ar waith yn gyson, ac fe'u nodir isod.

Sefydlwyd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan ddeddf Seneddol ym 1956 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig.

Lleolir prif swyddfa'r Cyngor yn 37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ. Cyflwynir datganiadau ariannol yn arian cyfred gweithredol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, mewn punnoedd.

### 1.1 Fformat y cyfrifon

Gofynnir i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol baratoi ei gyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Rhaid i'r Cyfrin Gyngor gyflwyno'r cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban. Nodir diben statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yng nghyflwyniad yr Adroddiad Blynyddol.

### 1.2 Safonau, diwygiadau a dehongliadau i safonau a gyhoeddwyd ond nas gweithredwyd eto

Mae'r Cyngor wedi asesu'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau canlynol sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto, ac mae wedi penderfynu peidio â'u mabwysiadu cyn y dyddiad pan fydd yn ofynnol eu mabwysiadu ar y sail na fyddai'r newidiadau'n cael unrhyw effaith, neu effaith ansylweddol, ar y cyfrifon hyn ac na fyddent yn darparu gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo'r darllenydd:

- IFRS 9 Offerynnau Ariannol – dyddiad gweithredu: cyfnodau ariannol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015, heb eu cymeradwyo eto gan yr UE. Mae IFRS 9 yn symleiddio'r gwaith o ddosbarthu a mesur asedau ariannol.

Mae'r Cyngor yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol na'r canlyniadau ar gyfer 2013 a 2014.

### 1.3 Amcangyfrifon a phenderfyniadau cyfrifyddu critigol

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'n rhaid i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wneud rhai amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau sy'n cael eu hadrodd yn y cyfrifon blynyddol.

Mae'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau'n seiliedig ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau yn ymwneud â digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol adeg gwneud y cyfryw amcangyfrifon a phenderfyniadau. Mae'n bosibl y bydd yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â'r perygl mwyaf sylweddol o achosi newid sylweddol i'r symiau o asedau a rhwymedigaethau i'w cario yn cael eu trafod isod:

#### i) Buddion pensiwn

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â phensiynau yn unol ag IAS 19 Buddion Gweithwyr Cyflogedig. Wrth benderfynu ar gost y pensiwn a rhwymedigaeth buddion diffiniedig cynllun pensiwn buddion diffiniedig y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, defnyddir nifer o ragdybiaethau gan gynnwys y gyfradd ddisgownt, y twf mewn cyflogau, chwyddiant prisiau, enillion disgwyliedig o fuddsoddiadau'r cynllun a chyfraddau marwolaeth. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu IAS 19 (2011) sy'n weithredol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2013. Mae'r rhagdybiaethau'n cael eu cytuno gyda'r actiwari cymwysedig a'u defnyddio i gyfrifo'r ddarpariaeth bensiwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 19 i'r cyfrifon.

#### ii) Dibrisiant ac amorteiddiad

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â dibrisiant ac amorteiddiad yn unol ag IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar ac IAS 38 Asedau Anghyffyrddadwy. Y gost ddibrisio ac amorteiddio sy'n cydnabod y gostyngiad yng ngwerth yr ased ac yn dyrannu cost yr ased dros y cyfnodau y caiff yr ased ei ddefnyddio.

Gwneir penderfyniadau ar sail amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr asedau, ac fe'u hadolygir yn rheolaidd i adlewyrchu'r amgylchedd newidiol.

#### iii) Darpariaethau

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â darpariaethau yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn. Mae'r darpariaethau'n seiliedig ar amcangyfrifon o werth a bennir gan briswyr cymwysedig priodol.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn y polisi cyfrifyddu ar y darpariaethau isod ac yn nodyn 18 i'r cyfrifon.

### 1.4 Busnes gweithredol

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi adolygu ei ragolygon o weithrediadau a llif arian ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae'r Cyngor Deintyddol yn credu ei bod hi'n briodol paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail busnes gweithredol.

### 1.5 Eiddo, Offer, Cyfarpar ac Asedau Anghyffyrddadwy

Mae Asedau Anghyffyrddadwy Sefydlog yn cael eu nodi fel Eiddo, Offer a Chyfarpar o dan IAS 16. Lle bo hynny'n briodol, mae asedau meddalwedd a datblygu

Technoleg Gwybodaeth wedi'u hailddosbarthu fel Asedau Anghyffyrddadwy o dan IAS 38.

Cedwir asedau sy'n cael eu creu ar y dyddiad cyfrifyddu ar sail cost nes eu bod yn gallu bod yn weithredol, pan gânt eu trosglwyddo i'r dosbarth asedau anghyfredol y maent yn perthyn iddo.

Nodir eiddo, offer, cyfarpar ac asedau anghyffyrddadwy ar sail cost, ar ôl ystyried gwerth dibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad.

Dim ond pan fo cost yr ased neu'r grŵp o asedau a gafwyd yn fwy na £1,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

### 1.6 Dibrisiant ac amorteiddiad

Diben dibrisio ac amorteiddio yw dileu cost yr asedau anghyfredol yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Mae cost dibrisio ac amorteiddio wedi'i chynnwys yn llinell gwariant gweinyddiaeth y cyfrif incwm a gwariant o dan incwm a gwariant cynhwysfawr. Dyma'r oesau defnyddiol:

(a) Dibrisir gwaith adeiladu'r Cyngor mewn adeiladau ar lesddaliad hir yn 37/38 Wimpole Street a 13/15 Wimpole Mews dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig neu weddill y brydles.

(b) Dibrisir gwaith ailwampio a holl waith gwella'r lesddaliad yn 37/38 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ, 13/15 Wimpole Mews a'r ail lawr, 44 Baker Street, Llundain W1U 7AL dros weddill y brydles - 20 mlynedd neu 10 mlynedd - neu, os yw'n llai na hynny, dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

(c) Dangosir oes asedau eraill isod.

- dodrefn a ffitiadau - hyd at 10 mlynedd
- offer a chyfarpar - hyd at 25 mlynedd
- cyfarpar TG - hyd at 4 blynedd
- meddalwedd TG, trwyddedau a sicrwydd meddalwedd - hyd at 5 mlynedd

Adolygir cyfraddau dibrisio yn rheolaidd i gymharu oes wirioneddol asedau â chyfraddau'r polisi cyfrifyddu.

### 1.7 Lleihad

Ar ddyddiad pob mantolen, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn adolygu symiau cario ei asedau i bennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau wedi lleihau mewn gwerth. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased er mwyn pennu graddfa'r colledion lleihad. Caiff colledion lleihad eu cyfrif yn y datganiad incwm a gwariant ar unwaith.

Pan fo cynnydd dilynol mewn swm adferadwy ased, yn sgil newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm adferadwy, mae'n cael ei ystyried fel gwrthdroad o'r colledion lleihad blaenorol ac yn cael ei gydnabod i'r un graddau â swm cario'r asedau a fyddai wedi'i bennu (gan ystyried amorteiddiad a dibrisiant) pe na bai colledion lleihad wedi'u cydnabod. Cydnabyddir y gwrthdroad yn y datganiad incwm a gwariant ar unwaith.

### 1.8 Gwariant

Cyfrifir gwariant ar sail croniadau ar ôl i'r nwyddau neu'r gwasanaeth gael eu derbyn neu eu cyflawi. Caiff TAW anadferadwy ei chynnwys gyda'r eitem o wariant y mae'n berthnasol iddi.

### 1.9 Incwm

Cyfrifir pob incwm pan fo sicrwydd digonol ynghylch hawl, swm a derbyn.

Mae'r holl ffioedd o gofrestriadau deintyddion a gweithwyr proffesiynol deintyddol yn cael eu gohirio tan ddechrau'r cyfnod cofrestru y mae'r ffioedd yn gysylltiedig ag ef. 1 Ionawr i 31 Rhagfyr yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer deintyddion.

Cydnabyddir yr holl ffioedd ar gyfer y cyfnod gan ddeintyddion yn llawn yn y flwyddyn ariannol pan dderbynnir yr incwm. 1 Awst i 31 Gorffennaf yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol.

Cydnabyddir ffioedd a dderbynnir mewn perthynas ag Arholiadau Cofrestru Tramor pan fo'r arholiadau'n cael eu sefyll.

Cydnabyddir ffioedd amrywiol, gwerthiannau eraill ac incwm arall pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau cysylltiedig.

Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau pan fo difidendau neu log yn ddyledus ac fe'i cofnodir fel swm sy'n cynnwys y dreth adferadwy.

### 1.10 Prydlesi ariannol

Adolygir telerau holl brydlesi'r Cyngor a phan fo manteision a pheryglon perchnogaeth yn nwylo'r Cyngor, ystyrir prydlesi yn brydlesi ariannol. Mae gwerthoedd cyfalaf prydlesi ariannol, ynghyd â gwerth cyfredol ad-daliadau cyfalaf yn y dyfodol yn cael eu nodi fel asedau a rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Caiff prydlesi ar wahân i brydlesi ariannol eu nodi fel prydlesi gweithredol. Caiff prydlesi gweithredol eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail linol dros dymor y brydles, gan ystyried unrhyw gymhellion prydles yn unol â thelerau IAS 17.

Mae'r Cyngor hefyd yn adolygu pob contract gwasanaeth i bennu a yw'r contractau'n cynnwys prydles ariannol o dan delerau IAS 17 fel y'u dehonglir gan IFRIC 4.

# 18 | Nodiadau i'r Cyfrifon

## parhad

### 1.11 Trethu

Caiff y Cyngor ei drethu fel sefydliad cydfuddiannol ac felly caiff ei drethu ar ffynonellau allanol o incwm yn unig.

Yn hanesyddol, incwm o fuddsoddiadau oedd hyn.

Cydnabyddir treth ohiriedig ar bob gwahaniaeth trethadwy dros dro. Fodd bynnag, ni ddarperir treth ohiriedig pan gydnabyddir ased neu rwymedigaeth yn y lle cyntaf oni bai fod y trafodyn cysylltiedig yn effeithio ar dreth neu elw cyfrifo. Hefyd, cydnabyddir ased treth ohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro i'w ddidynnu i'r graddau ei bod yn debygol y bydd yr elw trethadwy ar gael ac y gellir defnyddio'r gwahaniaeth dros dro i'w ddidynnu yn ei erbyn. Mesurir asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig ar y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yng nghyfnod gwireddu'r ased neu pan gaiff y rhwymedigaeth ei setlo. Mae'r mesuriad hefyd yn seiliedig ar y canlyniadau treth o adennill neu setlo swm cario asedau a rhwymedigaethau. Cydnabyddir newidiadau mewn asedau neu rwymedigaethau treth ohiriedig fel elfen o gostau treth yn y cyfrif incwm a gwariant.

### 1.12 Cynlluniau Pensiwn

Mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn cyfrannu at gynllun pensiwn buddion diffiniedig ar gyfer ei weithwyr. Caewyd y cynllun hwn i weithwyr newydd y cynigiwyd swyddi iddynt ar ôl y dyddiad 31 Rhagfyr 2014. Cedwir asedau'r cynllun ar wahân i rai'r Cyngor a chânt eu buddsoddi fel y disgrifir yn nodyn 19.

Caiff costau gwasanaeth cyfredol y cynllun pensiwn buddion diffiniedig a net costau llog y cynllun a'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn eu cynnwys o dan gostau pensiwn y cyfrif incwm a gwariant.

Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd yn syth o fewn incwm cynhwysfawr arall.

Mesurir asedau'r cynllun buddion diffiniedig yn ôl gwerth teg ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwaraidd ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau a'u disgowntio ar gyfradd sy'n gyfwerth â chyfradd adennill gyfredol bond corfforaethol o safon uchel sydd â thelerau tebyg i rwymedigaethau'r cynllun. Nodir ased neu rwymedigaeth y buddion diffiniedig terfynol ar wahân yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

Mae gan y Cyngor gynllun cyfraniadau diffiniedig, ond cedwir yr asedau'n gwbl annibynnol ar y rheiny yng nghynllun y Cyngor. Ni chaiff y cynllun ei gontractio allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth. Mae cyfrannu'n wirfoddol a bydd y Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at 5% o'r cyflog pensiynadwy. Caewyd y cynllun hwn i aelodau newydd o 1 Ebrill 2014.

Sefydlwyd cynllun cyfraniadau diffiniedig newydd o 1 Chwefror 2014, i ystyried y diwygiadau pensiwn sy'n ymwneud ag ymrestru awtomatig. Pennwyd cyfraniadau fel canran o gyflog pensiynadwy gyda chyfraniad y cyflogwr ar fwyafswm o 4%.

Mae cyfraniadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

### 1.13 Asedau ariannol

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl asedau ariannol yn asedau ariannol am werth teg drwy elw neu golled. Isod, mae'r mathau o asedau o fewn y categori, yn dibynnu ar y diben y cafwyd yr ased ar ei gyfer.

**Buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu:** tmae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau o warantau rhestredig, gwarantau llog sefydlog, ecwitïau ac ymddiriedolaethau unedol sy'n gronfa a reolir ac yn cynnwys portffolio cymysg o warantau rhestredig ac adneuon arian parod. Caiff y rhain eu trin fel buddsoddiadau anghyfredol sydd ar gael i'w gwerthu a'u cynnwys ar sail gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y pris cynnig terfynol a ddyfynnwyd ar y dyddiadau cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth y farchnad wedi'u cynnwys o fewn incwm cynhwysfawr arall, ac yn cael eu rhoi yn y gronfa ailbrisio buddsoddiadau. Wrth eu gwaredu, mae'r cynnydd neu'r golled gronnus a gydnabuwyd yn flaenorol yn y cronfeydd wrth gefn yn cael ei ailddosbarthu i'r cyfrif incwm a gwariant.

Masnach a symiau derbyniadwy eraill: asedau ariannol anneilliadol yw'r rhain gyda thaliadau sefydlog neu fesuradwy nad ydynt wedi'u dyfynnu mewn marchnad actif. Maent yn deillio'n bennaf drwy ddarpariaeth gwasanaethau, ond maent hefyd yn ymgorffori mathau eraill o asedau ariannol cytundebol. Maent yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ynghyd â chostau trafodion cysylltiedig y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r broses o'u caffael neu eu dyrannu, ac sy'n cael eu cario wedi hynny am y gwerth a anfonebwyd neu'r gost amorteiddio drwy ddefnyddio dull cyfradd llog effeithiol, wedi tynnu'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 15.

**Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod:** mae'r rhain yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon a gaiff eu dal ar gais gyda banciau.

**Rhwymedigaethau ariannol**

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl rwymedigaethau ariannol yn rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw neu golled. Isod, mae'r mathau o rwymedigaethau o fewn y categori, yn dibynnu ar y diben y cafwyd y rhwymedigaeth ar ei gyfer.

**Masnach a symiau taladwy eraill:** mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna'u cario am werth a anfonebwyd neu'r gost amorteiddio. Mae'r rhain yn deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Datgelir gwerth y rhwymedigaethau hyn yn nodyn 17

**Darpariaethau:** cydnabyddir darpariaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol pan fo gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol

neu adeiladol gyfredol yn sgil digwyddiad yn y gorffennol, a'i bod yn debygol y bydd angen all-lif o fanteision economaidd i setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir sicrhau amcangyfrif dibynadwy o'r all-lif o fanteision economaidd.

(i) **Costau Ymddeoliad Cynnar:** Roedd y Cyngor yn talu costau ychwanegol buddion y tu hwnt i'r cynllun buddion diffiniedig arferol i weithiwr a ymddeolodd yn gynnar ar sail feddygol. Talwyd swm o arian bob blwyddyn gydag amodau, i'r gweithiwr am y cyfnod rhwng gadael yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Cyrhaeddodd y gweithiwr oedran ymddeol eleni a thalwyd gweddill y ddarpariaeth i ymddiriedolwyr y pensiwn i brynu blwydd-dal.

(ii) **Dadfeiliadau:** Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â chydymffurfio â chymalau prydlesi adeiladau a ddefnyddir gan y Cyngor. Mae darpariaethau dadfeiliadau'r Cyngor yn cael eu cyfrifo ar sail amcangyfrif o gost gwariant y dyfodol, er mwyn setlo rhwymedigaethau mewn perthynas â chymalau prydlesi. Mae'r Cyngor wedi darparu'n llawn ar gyfer hyn.

Mae'r ddarpariaeth yn cael ei hailbrisio'n rheolaidd gan brisiwr allanol cymwys.

### 1.14 Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y canlynol:

#### Cronfa gyffredinol wrth gefn

Cynrychioli'r canlyniadau argadwedig ar ôl trosglwyddo enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau a/neu rwymedigaethau cynllun pensiwn ac enillion/colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiad.

#### Cronfa bensiwn wrth gefn

Cynrychioli enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau'r cynllun pensiwn sy'n deillio o ailbrisio darpariaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ased/rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddion diffiniedig.

#### Enillion heb eu gwireddu ar y gronfa fuddsoddiadau wrth gefn

Cynrychioli enillion a cholledion heb eu gwireddu sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau dros eu cost hanesyddol.

### 1.15 Offerynnau ariannol

Amlinellir manylion y categorïau amrywiol o asedau ariannol yn nodyn 14 i nodyn 16. Amlinellir y categorïau amrywiol o rwymedigaethau ariannol yn nodiadau 17 ac 18.

#### Risg credyd

Bod yn agored i risg credyd yw'r risg y bydd un parti i offeryn ariannol yn methu cyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi colled ariannol i barti arall. Ni ystyrir bod hyn yn arwyddocaol. Nid yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn defnyddio offerynnau ariannol sy'n cynyddu ei broffil risg credyd ei hun ac nid yw'n agored i ddyled allanol. Mae'n defnyddio mesurau lliniaru risg amrywiol, gan gynnwys asesiadau credyd-raddio i asesu risg credyd gwrth-bartïon, gan gynnwys cyflenwyr a sefydliadau ariannol.

#### Perygl hylifedd

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau ar hyn o bryd ac mae'n dibynnu'n bennaf ar ffioedd ar gyfer ei ofynion arian parod. Mae'r balansau arian yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt ym mis Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst.

Mae lefelau cyllid arian parod yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn gan fod derbyniadau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fo deintyddion yn talu eu ffi gadw flynyddol ac ym mis Gorffennaf, pan fo gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd cadw blynyddol. Mae gwariant y Cyngor yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal gydol y flwyddyn. Felly, nid yw'r Cyngor yn credu ei fod yn agored iawn i berygl hylifedd.

#### Risg arian cyfred

Mae pob ased a rhwymedigaeth sylweddol yn cael eu trafod mewn Sterling, felly nid yw'n agored i risg arian cyfred. Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol bolisi cronfeydd wrth gefn. Yn sgil cylchoedd adnewyddu cofrestriadau a dulliau talu ffioedd cofrestru, mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol swm sylweddol o arian mewn cyfrifon cadw tymor byr i dalu'r gwariant a ddisgwylir dros y cyfnod talu.

#### Risg cyfraddau llog

Mae gweithwyr proffesiynol deintyddol yn talu ffioedd ymlaen llaw. Mae cronfeydd gwarged yn cael eu cadw fel a ganlyn:

**Adnau tymor sefydlog –** mae mwyafrif y cronfeydd gwarged yn cael eu cadw yn y farchnad arian tymor byr. Mae'r Cyngor yn chwilio am gyfraddau cystadleuol ar fuddsoddiadau marchnad arian.

**Buddsoddiadau –** Buddsoddir gweddill y cronfeydd mewn portffolio o ecwitïau ac ymddiriedolaethau unedol lle mae yna risg bob amser o leihad mewn gwerth.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r marchnadoedd ariannol gan ddefnyddio strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg a cholled ormodol i gyfrifoldebau rheoleiddio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Ym mis Rhagfyr 2011, cymeradwyodd y Cyngor ddatganiad diwygiedig o egwyddorion buddsoddi, lle bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ceisio cael portffolio o fuddsoddiadau risg a fydd yn sicrhau enillion o fuddsoddiadau sy'n cyd-fynd yn fras â chwyddiant.

Ni ystyrir bod y risg cyfraddau llog yn sylweddol o ran bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn dibynnu ar incwm llog i raddau helaeth i ariannu ei weithredoedd.

# 18 | Nodiadau i'r Cyfrifon

## Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014

## parhad

### 2 Incwm

| | 2014 Niferoedd | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|---|
| Ffioedd | | | |
| Deintyddion | | | |
| Cyfanswm cofrestru newydd | 2,020 | 607 | 558 |
| Cofrestru dros dro | 53 | 31 | 49 |
| Cadw | 39,155 | 22,554 | 22,237 |
| Adfer ar ôl dileu | 235 | 28 | 35 |
| Cyfanswm | 41,463 | 23,220 | 22,879 |
| Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol | | | |
| Cyfanswm cofrestru newydd | 5,046 | 336 | 343 |
| Cadw | 63,550 | 7,626 | 7,357 |
| Adfer ar ôl dileu | 1,006 | 24 | 26 |
| Cyfanswm | 69,602 | 7,986 | 7,726 |
| Arbenigwyr | | | |
| Cofrestru arbenigwyr | 155 | 53 | 78 |
| Ffi gadw flynyddol arbenigwyr | 4,186 | 301 | 297 |
| Ffi adfer arbenigwyr | 8 | - | - |
| Cyfanswm | 4,349 | 354 | 375 |
| Cyfanswm ffioedd | | 31,560 | 30,980 |

Mae'r ffigurau uchod yn dangos faint o weithwyr cofrestredig sy'n talu ffioedd yn ystod y flwyddyn ac nid nifer y gweithwyr cofrestredig sydd ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2013.

### 3 Incwm amrywiol

| | | |
|---|---|---|
| Ffioedd arholiadau | 1,565 | 1,803 |
| Incwm gweithredu arall | 15 | 12 |
| | 1,580 | 1,815 |

### 4 Incwm buddsoddi

| | | |
|---|---|---|
| Llog adneuon banc | 62 | 89 |
| Difidendau – gwarantau rhestredig | 446 | 466 |
| | 508 | 555 |

## 5 Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

| | Staff cyflogedig parhaol £'000 | 2014 Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Costau staff yn cynnwys:** | | | | |
| Cyflogau | 11,747 | - | 11,747 | 9,213 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1,196 | - | 1,196 | 974 |
| Costau pensiwn | 1,483 | - | 1,483 | 1,176 |
| Taliadau gorffen | 323 | | 323 | - |
| Costau staff eraill | 1,298 | - | 1,298 | 1,436 |
| Is-gyfanswm | 16,047 | - | 16,047 | 12,799 |
| Staff dros dro | - | 394 | 394 | 482 |
| Cyfanswm | 16,047 | 394 | 16,441 | 13,281 |

### (a) Gweithwyr - Niferoedd

Nifer cyfartalog gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn wedi'u dadansoddi yn ôl swyddogaeth oedd:

| | Staff cyflogedig parhaol | 2014 Eraill | Cyfanswm | 2013 |
|---|---|---|---|---|
| Addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau | 134 | 2 | 136 | 87 |
| Cofrestru | 67 | 2 | 69 | 62 |
| Rheoli polisi a rhanddeiliaid | 16 | - | 16 | 14 |
| Llywodraethu | 12 | - | 12 | 12 |
| Sicrhau Ansawdd | 12 | - | 12 | 10 |
| Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 9 | - | 9 | 10 |
| Gwasanaethau corfforaethol | 43 | 2 | 45 | 40 |
| Cyfanswm | 293 | 6 | 299 | 235 |

### (b) Gweithwyr - Tâl

Nifer y staff yr oedd eu henillion trethadwy yn perthyn i'r bandiau cyflog uwch:

| | 2014 Cyfanswm Nifer | 2013 Cyfanswm Nifer |
|---|---|---|
| £60,000 ond llai na £70,000 | 12 | 9 |
| £70,000 ond llai na £80,000 | 1 | 2 |
| £80,000 ond llai na £90,000 | 3 | 2 |
| £90,000 ond llai na £100,000 | 2 | 2 |
| £100,000 ond llai na £110,000 | 3 | 2 |
| £110,000 ond llai na £120,000 | 1 | 1 |
| £150,000 ond llai na £160,000 | 1 | 1 |

Roedd 22 aelod o'r staff uchod yn rhan o gynllun pensiwn 'buddion diffiniedig' a 13 aelod yn perthyn i'r cynllun pensiwn 'cyfraniad diffiniedig'.

Y pensiwn a gasglwyd gan y gweithiwr â'r cyflog uchaf o dan y cynllun buddion diffiniedig oedd £30,096, a than y cynllun cyfraniad diffiniedig oedd £1,267.

# 18 | Nodiadau i'r Cyfrifon

## Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 parhad

### Prif Weithredwr a Chofrestrydd - Tâl

| | Enillion | | Accrued Pension | |
|---|---|---|---|---|
| | 2014 £'000 | 2013 £'000 | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
| Evlynne Gilvarry | 157 | 153 | 31 | 33 |

### 6 Costau gweinyddol eraill

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol | | |
| Tâl a threuliau'r Archwilydd: | | |
| Archwiliad allanol | 20 | 20 |
| Archwiliad allanol – y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 4 | 3 |
| Archwiliad mewnol | 91 | 70 |
| Gwrandawiadau ymddygiad | 3,453 | 3,802 |
| Ffioedd a chostau eraill | 4,468 | 3,931 |
| Treuliau eraill | 2,516 | 1,952 |
| Cyfanswm | 10,552 | 9,778 |

| | 2014 £ | 2013 £ |
|---|---|---|
| Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y gwasanaethau canlynol ar wahân i'w harchwilio gan yr archwilydd allanol haysmacintyre: | | |
| Cyngor ar dreth gorfforaethol | 3 | 3 |
| | 3 | 3 |

### 7 Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| (a) Ffioedd a threuliau'r Cyngor | | |
| Ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Cyngor | 227 | 207 |
| Treuliau a dalwyd i Aelodau'r Cyngor | 156 | 179 |
| Treuliau cyfarfodydd y Cyngor | 122 | 161 |
| | 505 | 547 |
| (b) Ffioedd a threuliau pwyllgorau a phaneli | | |
| Ffioedd a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 2,771 | 2,210 |
| Treuliau a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 1,065 | 853 |
| Ffioedd a threuliau proffesiynol ar gyfer pwyllgorau a phaneli | 1,110 | 917 |
| Treuliau cyfarfodydd pwyllgorau a phaneli | 2,781 | 1,987 |
| | 7,727 | 5,967 |
| Cyfanswm cyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau | 8,232 | 6,514 |

### 8 Costau gweinyddol

| | 2014<br>£'000 | 2013<br>£'000 |
|---|---|---|
| Dibrisiant | 452 | 458 |
| Amorteiddiad | 447 | 369 |
| Colledion yn sgil gwaredu eiddo, offer a chyfarpar | 43 | 56 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredol: | | |
| Llogi peiriannau swyddfa | 68 | 39 |
| Prydlesi adeiladau | 1,153 | 713 |
| Taliadau llog | - | 1 |
| Cymorth a chynnal a chadw technoleg gwybodaeth | 666 | 650 |
| Costau personnél | 43 | 54 |
| Costau gweithredu eraill | 659 | 595 |
| | 3,531 | 2,935 |

### 9 Llety

| | | |
|---|---|---|
| Costau llety eraill | 674 | 741 |
| | 674 | 741 |

### 10 Cyfathrebiadau a Chyhoeddiadau

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm Cyfathrebiadau a Chyhoeddiadau | 534 | 673 |
| | 534 | 673 |

# 18 | Nodiadau i'r Cyfrifon

## Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 parhad

### 11 Trethu

(a) Dadansoddiad o'r trethi a godir

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Treth gyfredol | | |
| Treth gorfforaeth y DU ar elw'r flwyddyn | 122 | 19 |
| Addasiad treth y flwyddyn flaenorol | (34) | - |
| Cyfanswm trethi cyfredol a godir | 88 | 19 |
| Treth ohiriedig | | |
| Tarddiad a gwrth-droi gwahaniaethau amseriad | (36) | 137 |
| Cyfanswm treth ohiriedig | (36) | 137 |
| Treth ar elw ar weithgareddau cyffredin | 52 | 156 |

(b) Ffactorau sy'n effeithio ar y trethi a godir am y cyfnod

Caiff y Cyngor ei drethu fel sefydliad cydfuddiannol ac felly caiff ei drethu ar ffynonellau incwm allanol yn unig. Yn hanesyddol incwm o fuddsoddiadau oedd hyn.

| Ffactorau sy'n effeithio ar drethi a godir am y cyfnod | | |
|---|---|---|
| Elw am y flwyddyn | (6,286) | (572) |
| Cost ddisgwyliedig ar sail 20% (2013: 20%) | (1,257) | (114) |
| Effeithiau: | | |
| Gwahaniaeth rhwng cyfradd treth wirioneddol a chyfradd y brif dreth gorfforaethol | | (36) - |
| Incwm di-dreth | 1,331 | 197 |
| Symudiad ym malans y dreth ohiriedig | (36) | 137 |
| Treth ar gydraddoli a chynnydd yng ngwerth buddsoddiadau llog penodol | 84 | (64) |
| Addasiad treth y flwyddyn flaenorol | (34) | - |
| Treth a godir y flwyddyn hon | 52 | 156 |

### 12 Eiddo, offer a chyfarpar

| 2014 | Eiddo ar brydles £'000 | Offer a chyfarpar £'000 | Dodrefn a gosodiadau £'000 | TG £'000 | Asedau sy'n cael eu creu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost neu brisiad | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2014 | 4,789 | 572 | 333 | 783 | 799 | 7,276 |
| Ychwanegiadau | - | 42 | 249 | 319 | 3,771 | 4,381 |
| Gwarediadau | (10) | (115) | (11) | (100) | - | (236) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2014** | **4,779** | **499** | **571** | **1,002** | **4,570** | **11,421** |
| Dibrisiant | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2014 | 3,117 | 378 | 258 | 493 | - | 4,246 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 234 | 29 | 31 | 158 | - | 452 |
| Gwarediadau | (4) | (77) | (11) | (95) | - | (187) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2014** | **3,347** | **330** | **278** | **556** | **-** | **4,511** |
| Gwerth llyfr net: | | | | | | |
| **ar 31 Rhagfyr 2014** | **1,432** | **169** | **293** | **446** | **4,570** | **6,910** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2013** | **1,672** | **194** | **75** | **290** | **799** | **3,030** |

### 13 Asedau anghyffyrddadwy

| 2014 | Meddalwedd £'000 | Trwyddedau £'000 | Asedau sy'n cael eu creu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2014 | 1,503 | 562 | 112 | 2,177 |
| Ychwanegiadau | 17 | - | 249 | 266 |
| Trosglwyddiadau | 168 | - | (168) | - |
| Gwarediadau | | - | | - |
| **Ar 31 Rhagfyr 2014** | **1,688** | **562** | **193** | **2,443** |
| Amorteiddiad | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2014 | 568 | 433 | - | 1,001 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 377 | 70 | - | 447 |
| Gwarediadau | | - | | - |
| **Ar 31 Rhagfyr 2014** | **945** | **503** | **-** | **1,448** |
| Gwerth llyfr net: | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2014** | **743** | **59** | **193** | **995** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2013** | **935** | **129** | **112** | **1,176** |

# 18 | Nodiadau i'r Cyfrifon

## Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 parhad

### 14 Asedau ariannol – asedau ar gael i'w gwerthu

| **2014** | Ecwitïau £'000 | Gwarantau Llog Penodol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Balans ar 31 Rhagfyr 2012 | 3,342 | 9,922 | 13,264 |
| Ychwanegiadau | 1,298 | - | 1,298 |
| Gwarediadau | (499) | (5,597) | (6,096) |
| | 4,141 | 4,325 | 8,466 |
| Enillion wedi eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 125 | (95) | 30 |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 165 | 168 | 333 |
| Balans ar 31 Rhagfyr 2014 | 4,431 | 4,398 | 8,829 |

Incwm a gynhyrchwyd o'r asedau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014: Ecwitïau £83,882 (2013: £64.069) a Gwarantau Llog Penodol £362,386 (2013: £386,401).

Mae'r asedau ariannol uchod wedi'u dyfynnu mewn marchnad weithredol ac wedi'u cynnwys ar sail eu gwerth ar y farchnad. Mae'r holl asedau ariannol uchod yn cael eu trin fel rhai lefel 1 at ddibenion datgelu o dan IFRS7, gan fod yr holl symiau wedi'u pennu trwy gyfeirio at y prisiau a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol.

### 15 Derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill

Cyfansymiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 31 Rhag 2014 £'000 | 31 Rhag 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Derbyniadau masnach | 14 | 47 |
| Derbyniadau eraill | 413 | 112 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 1,344 | 482 |
| Cyfanswm | 1,771 | 641 |

Dyledion cyfredol yw'r rhain, ac nid oes unrhyw symiau dyledus o'r gorffennol ond nid oes lleihad mewn gwerth. Nid oes darpariaeth ar gyfer drwgddyledion. Nid oes unrhyw asedau ariannol wedi colli gwerth.

### 16 Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ionawr | 26,454 | 25,851 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 5,409 | 603 |
| Balans ar 31 Rhagfyr | 31,863 | 26,454 |
| **Roedd y balansau canlynol wedi'u cadw mewn:** | | |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 31,650 | 8,413 |
| Adneuon banc tymor byr | 213 | 18,041 |
| Cyfanswm | 31,863 | 26,454 |

## 17 Taliadau masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

Symiau dyledus o fewn blwyddyn:

| | 31 Rhag 2014 £'000 | 31 Rhag 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Treth gorfforaethol | 120 | 18 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 526 | 433 |
| Taliadau masnach | 1,231 | 1,542 |
| Taliadau eraill | 20 | 8 |
| Croniadau | 2,839 | 2,893 |
| Incwm gohiriedig | 35,180 | 22,988 |
| Cymhelliant gweithredol gohiriedig | 11 | 11 |
| **Cyfanswm** | **39,927** | **27,893** |
| Symiau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn: | | |
| Cymhelliant gweithredol gohiriedig | 23 | 34 |
| Treth ohiriedig | 218 | 254 |
| | **241** | **288** |
| **Cyfanswm** | **40,168** | **28,181** |

Ni thalwyd llog yn ystod y flwyddyn dan Ddeddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llog) 1998.

## 18 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| **2014** | Dadfeiliadau Adeiladau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ionawr 2014 | 135 | 135 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2014** | **135** | **135** |
| Rhwymedigaeth gyfredol | 0 | 0 |
| Rhwymedigaeth anghyfredol | 135 | 135 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2014** | **135** | **135** |

**Dadfeiliadau:** Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â chydymffurfio â chymalau prydlesi adeiladau a ddefnyddir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae darpariaethau dadfeiliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u cyfrifo ar sail cost amcangyfrifedig gwariant y dyfodol, er mwyn setlo'r rhwymedigaethau o ran cymalau'r brydles. Cwblhawyd gwaith ailbrisio gan briswyr allanol yn Rhagfyr 2010. Mae'r Cyngor Deintyddol wedi darparu ar gyfer hyn yn llawn. Disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei thalu ar ddiwedd y brydles yn 2018.

# 18 | Nodiadau i'r Cyfrifon

## Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 parhad

### 19 Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gynllun buddion diffiniedig sy'n cael ei ariannu'n llawn gan gyfraniadau gan y Cyngor Deintyddol a'r Aelodau. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 1 Ebrill 2012 a'i ddiweddaru i 31 Rhagfyr 2014 gan actiwari annibynnol cymwysedig.

Ar 31 Rhagfyr 2014, roedd gan y Cynllun £2.490 miliwn o warged yn seiliedig ar y tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd.

Dan ofynion IFRIC 14: Y Cyfyngiad ar Ased Budd Diffiniedig, Lleiafswm y Gofynion Ariannu a'u Rhyngweithiad, gallai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol orfod cyfyngu'r gwarged mewn datganiadau ariannol os na fyddai'n gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. O dan delerau ac amodau'r Cynllun, byddai'r Cyngor yn gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged naill ai trwy gymryd seibiant cyfraniadau llawn neu trwy leihau ei gyfraniadau yn y dyfodol. Felly, nid oes cyfyngiad ar y gwarged dan sylw.

Yn achos aelodau'r cynllun buddion a ymunodd â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol cyn 12 Mai 1999 a'r ddau aelod a ymunodd wedyn, telir cyfraniadau bob mis ar y gyfradd flynyddol o 27% o'r cyflog Pensiynadwy. Yn achos y rhai a ymunodd â'r Cyngor ar ôl 12 Mai 1999, telir cyfraniadau misol ar gyfradd flynyddol o 24.8%. Mae aelodau'r cynllun buddion a ymunodd â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar neu ar ôl 12 Mai 1999 yn talu 5% o'u Cyflog Pensiynadwy tuag at y cynllun.

Mae'r Cynllun i bara am oddeutu 30 mlynedd ac felly disgwylir y bydd llifoedd arian yn y dyfodol wedi'u talu amdanynt ymhen 30 mlynedd.

Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiodd yr actiwari ar gyfer y diweddariad ar 31 Rhagfyr 2014:

| | 2014 | 2013 |
|---|---|---|
| Cyfradd chwyddiant | 3% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau | 4% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu lle mae'r uchafswm LPI yn 5.0% | 3% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu lle mae'r isafswm LPI yn 3.0% a'r mwyafswm yn 5% | 4% | 4% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu lle mae'r uchafswm LPI yn 2.5% | 2% | 3% |
| Cyfradd gostyngiad | 4% | 5% |
| Cyfran y gweithwyr sy'n dewis ymddeol yn gynnar yn 60 oed | 50% | 50% |
| Disgwyliadau oes tybiedig wrth ymddeol yn 65 oed: | | |
| Ymddeol heddiw – dynion | 24 | 24 |
| Ymddeol heddiw - menywod | 25 | 25 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd – dynion | 25 | 25 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd - menywod | 26 | 27 |

Mae'r tybiaethau marwoldeb ar gyfer y diwedd cyfnod cyfredol yn dilyn SINA Light gyda chyfraddau gwelliant yn unol â model CMI 2012 (1% hirdymor y flwyddyn)

## 19 Y Gronfa Bensiwn

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

| | 2014 | 2014 | 2013 | 2013 |
|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau | £16,500 | 80% | £14,106 | 79% |
| Y Gronfa Gydag Elw | £3,840 | 19% | £3,776 | 21% |
| Arian parod | £160 | 1% | £2 | 0 |
| **Cyfanswm** | **£20,500** | **100%** | **£17,884** | **100%** |

Ni fuddsoddwyd unrhyw asedau'r cynllun pensiwn yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Yr elw gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn | 949 | 2,903 |

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad o'r symiau a ddebydwyd/ (credydwyd) i'r cyfrif incwm a gwariant:** | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | (1,539) | (1,259) |
| Cost llog net ar rwymedigaeth pensiwn net | 273 | 129 |
| Cyfanswm y swm a godwyd o fewn adnoddau i mewn (allan) net | (1,266) | (1,130) |
| Ail-fesur rhwymedigaeth pensiwn | (2,883) | 2,025 |
| **Cyfanswm a godwyd** | **(4,149)** | **895** |
| **Y symiau sydd wedi'u cydnabod yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol** | | |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | (18,010) | (12,690) |
| Gwerth teg yr asedau | 20,500 | 17,884 |
| **Gwarged** | **2,490** | **5,194** |
| **Y symiau yn y datganiad o incwm cynhwysfawr arall** | | |
| Elw /(colled) actiwaraidd ar asedau'r cynllun | 107 | 2,290 |
| Elw /(colled) actiwaraidd ar rwymedigaeth buddion diffiniedig | (2,990) | (265) |
| o ganlyniad i brofiad | (41) | 352 |
| o ganlyniad i dybiaethau demograffig | - | (59) |
| o ganlyniad i dybiaethau ariannol | (2,949) | (558) |
| **Cyfanswm (colled)/elw mewn datganiad o incwm cynhwysfawr** | **(2,883)** | **2,025** |

Mae'r Cyngor yn disgwyl cyfrannu £1,902,000 at ei gynllun pensiwn buddion diffiniedig yn 2015.

### 19 Y Gronfa Bensiwn

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 |
|---|---|---|
| **Dyma'r dadansoddiad sensitifrwydd o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig:** | | |
| Cyfradd ddisgownt wedi'i lleihau 0.25% y flwyddyn | 19,510 | 13,633 |
| Chwyddiant RPI wedi cynyddu 0.25% y flwyddyn | 19,510 | 13,441 |
| Cyflogau wedi cynyddu 0.25% y flwyddyn | 18,610 | 13,059 |
| Marwoldeb – disgwyliad oes pob aelod yn cynyddu i rywun blwyddyn yn iau | 18,410 | 12,999 |
| **Dyma'r newidiadau i werth presennol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig:** | | |
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 1 Ionawr 2014 | 12,690 | 11,119 |
| Cost llog | 569 | 484 |
| Cost gwasanaeth | 1,539 | 1,259 |
| Cyfraniadau aelodau | 330 | 255 |
| Colled /(elw) actiwaraidd | 2,990 | 265 |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun / treuliau gweinyddol a dalwyd | (108) | (692) |
| **Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 31 Rhagfyr 2014** | **18,010** | **12,690** |
| **Dyma'r newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun:** | | |
| Gwerth teg ar 1 Ionawr 2014 | 17,884 | 14,230 |
| Incwm llog | 842 | 613 |
| Enillion ar asedau'r cynllun yn fwy nag incwm llog | 107 | 2,290 |
| Cyfraniadau cyflogwr | 1,445 | 1,188 |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 330 | 255 |
| Buddion a dalwyd/treuliau gweinyddol a dalwyd | (108) | (692) |
| **Gwerth teg ar 31 Rhagfyr 2014** | **20,500** | **17,884** |
| **Newid mewn gwarged adferadwy ac elfennau o berfformiad y cynllun** | | |
| Balans agor | 5,194 | 3,111 |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (1,539) | (1,259) |
| Llog ar y gwarged | 273 | 129 |
| Costau pensiwn net | (1,266) | (1,130) |
| Cyfraniadau cyflogwr | 1,445 | 1,188 |
| Elw /(colled) actiwaraidd | (2,883) | 2,025 |
| **Balans cau** | **2,490** | **5,194** |

## 19 Y Gronfa Bensiwn

| | 2014 £'000 | 2013 £'000 | 2012 £'000 | 2011 £'000 | 2010 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Symiau ar gyfer cyfnodau cyfredol a blaenorol** | | | | | |
| Elw ar asedau cynllun sy'n uwch na'r incwm llog | 107 | 2,290 | 861 | (304) | 978 |
| Enillion/(colledion) profiad ar rwymedigaethau'r cynllun | (41) | 352 | (4) | (559) | 27 |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | (2,949) | (617) | (289) | 189 | 138 |
| Rhwymedigaethau buddion diffiniedig | (18,010) | (12,690) | (11,119) | (9,011) | (7,146) |
| Asedau'r cynllun | 20,500 | 17,884 | 14,230 | 11,551 | 10,417 |
| Gwarged | 2,490 | 5,194 | 3,111 | 2,540 | 3,271 |

| Asedau a enillwyd | | | |
|---|---|---|---|
| Swm | 107 | 2,290 | 861 |
| % o asedau'r cynllun | 0.5% | 12.8% | 6.1% |

| Profiad rhwymedigaethau a enillwyd | | | |
|---|---|---|---|
| Swm | 41 | 352 | 4 |
| % o rwymedigaethau cynllun | -0.2% | 3 | - |

Tybir bod rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yn cael eu heithrio o asedau os oes blwydd-daliadau cyfatebol.

Mae pob pensiynwr yn derbyn cynnydd gwarantedig o 3% y flwyddyn o dan delerau'r Cynllun am wasanaeth hyd at 6 Ebrill 1997. Caiff gwasanaeth ar ôl 6 Ebrill 1997 ei drin yn unol â Deddf Pensiynau 1995. Caiff unrhyw iawndal pellach am y cynnydd mewn costau byw ei ystyried yn flynyddol.

Yn 2014 roedd y cyfraniad premiwm blynyddol yn £1,661,960 (2013: £1,233,770). Yn gynwysedig yn y premiwm blynyddol roedd £205,232 (2012: £54,209) ar gyfer y cynllun pensiwn cyfrannol diffiniedig. Roedd gwarged gan y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn.

# 18 | Nodiadau i'r Cyfrifon

## Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014 parhad

### 20 Ymrwymiadau dan brydlesi

Prydlesi gweithredol

**Noder:** mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm isafswm taliadau prydlesi yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:

Rhaid cofnodi cyfanswm gwerthoedd prydlesi yn erbyn pob categori terfynu, h.y. lle bo prydles yn cynnwys taliad blynyddol o £1,000 dros dymor o 10 mlynedd, rhaid cofnodi £1,000 dan derfyn <1 blwyddyn, £4,000 dan derfyn 2-5 mlynedd a £5,000 dan derfyn > 5 mlynedd

Mae rhwymedigaeth o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:

| | 31 Rhag 2014 £'000 | 31 Rhag 2013 £'000 |
|---|---|---|
| Tir ac adeiladau | | |
| Hyd at 1 flwyddyn | 896 | 949 |
| Rhwng 1 flwyddyn a 5 mlynedd | 614 | 1,293 |
| 5 mlynedd a mwy | 187 | 192 |
| | 1,697 | 2,434 |
| Arall: | | |
| Hyd at 1 flwyddyn | 93 | 143 |
| Rhwng 1 flwyddyn a 5 mlynedd | 3 | 66 |
| | 96 | 209 |

## 21 Ymrwymiadau Cyfalaf

**Noder:** Cymeradwyodd y Cyngor yr achos busnes ar gyfer ailddatblygu 37 Wimpole Street ym mis Medi 2012.

Dechreuodd y gwaith ailddatblygu yn 2013 a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2015.

Ym mis Medi 2014, cymeradwyodd y Cyngor wariant o £7.1 miliwn gyda £0.9 miliwn wrth gefn, sef cyfanswm o £8 miliwn.

Erbyn diwedd 2014 mae £4,570,053 o'r costau wedi eu gwario a'u hadrodd yn Nodyn 12 o fewn Asedau sy'n cael eu creu.

## 22 Trafodion partïon cysylltiedig

**Noder:** Ni chafwyd unrhyw drafodion gyda phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2014, ar wahân i'r ffioedd a'r treuliau a dalwyd i Aelodau'r Cyngor fel y datgelwyd yn nodyn 7 y cyfrifon. Mae manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor i'w gweld ar dudalennau 32 a 33 yr Adroddiad Blynyddol.

## 23 Rhwymedigaethau wrth gefn

**Noder:** Nid oes gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol rwymedigaethau wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2014.

## 24

Cafwyd caniatâd y Swyddog Cyfrifyddu (y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd) i gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ar 17 Mehefin 2015.

# 19 | Cynghorwyr

**Bancwyr**

Lloyds Banking Group, Corporate Markets, 3rd Floor, 25 Gresham Street, London EC2V 7HN

**Cynghorwyr cyfreithiol**

Capsticks Solicitors LLP, 1 St George's House East, St George's Road, Wimbledon, London, SW19 4DR

Kingsley Napley LLP, Knights Quarter, 14 St John's Lane, London EC1 4AJ

Blake Morgan, Harbour Court, Compass Road, North Harbour, Portsmouth, Hampshire PO6 4ST

**Archwilwyr allanol**

haysmacintyre, 26 Red Lion Square, London WC1R 4AG

Sir Amyas C E Morse, The Comptroller and Auditor General, National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road, Victoria, London SW1W 9SP

**Archwilwyr mewnol**

Grant Thornton (UK) LLP, 30 Finsbury Square, London EC2P 2YU

Gwiriwch fod eich gweithiwr deintyddol proffesiynol wedi'i gofrestru: **www.gdc-uk.org**

Rydym am sicrhau bod ein holl wasanaethau'n hygyrch i bawb.

Os hoffech chi gael copi o'r adroddiad hwn mewn iaith neu fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print bras neu sain), cysylltwch â ni.

Gellir lawrlwytho copïau o'r ddogfen hon o'n gwefan.

**Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL**
37 Wimpole Street, London W1G 8DQ
**Ffôn:** 020 7167 6000
**E-bost:** information@gdc-uk.org
**Gwefan:** www.gdc-uk.org

ISBN 978-1-4741-1867-5